

ADOLYGIAD O'R GRONFA HYRWYDDO CYDRADDOLDEB



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Martin Rolph
Medi 2007

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

2. Hanes y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb

2.3 2000-2001

2.6 Dyraniadau'r Blynnyddoedd Dilynol

2.9 Dyraniad y gyllideb yn 2006-07

3. Cefndir Defnydd y Gronfa: Materion Cydraddoldeb (a rhai cysylltiedig) o bwys

3.1 Prif Ffrydio

3.5 Dyletswyddau Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru

3.11 Agenda strategol gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad

3.14 Creu'r Cysylltiadau

3.17 Cynllun Cydraddoldeb Unigol

3.23 Asesu'r Effaith

3.26 Sail y dystiolaeth

3.30 Materion Sector Gwirfoddol

3.34 Enghreifftiau o Brif Ffrydio ar waith

4. Ymdriniaeth gyffredinol o faterion sy'n ymwneud â defnydd y Gronfa yn y dyfodol

4.6 Cyfeiriad cyffredinol symudiad yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol

4.9 Gwersi o leoedd eraill?

5. Ystyriaeth o Faterion sy'n berthnasol i ddefnydd o gyllideb y Gronfa yn y dyfodol

6. Dewisiadau ar gyfer defnydd cyllideb y Gronfa yn y dyfodol

6.2 Y cyd-destun – newid yn barhaus

6.4 Y berthynas rhwng defnyddio cyllideb y Gronfa a blaenoriaethau'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol

6.7 Beth ddylai'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol ei ariannu (ac na ddylai ei ariannu)?

6.13 Y cyfrannau o'r Gronfa a ddylai fynd ar gostau craidd ac ar brosiectau

6.25 Denu sylw i'r posibilrwydd o gyllid y Gronfa, a thryloywder yn gyffredinol

6.31 Graddfeydd amser ar gyfer cyllido

6.33 Proses y ceisiadau

6.38 Rhybudd ymlaen llaw o newidiadau posibl

6.43 Casgliad – a'r ffordd ymlaen

7. Rhestr o Argymhellion

ATODIADAU

1. Cylch Gorchwyl

2. Rhestr o'r rhai y cynhaliwyd trafodaethau â hwy

CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Crëwyd y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb (y Gronfa) yn 2000 gyda £100,000 y flwyddyn o gyllid newydd. Y prif nod yn ei blynyddoedd cynnar oedd datblygu cynhwysedd a strwythurau i alluogi'r rhai a oedd wedi cael eu tangynrychioli neu wedi dioddef gwahaniaethu ers amser maith i gymryd rhan mewn deialog wirioneddol gyda Llywodraeth y Cynulliad ar faterion polisi.
2. Ers 2000 mae nifer o ddatblygiadau wedi digwydd sy'n gofyn am newidiadau i'r ffordd y defnyddir y gyllideb hon. Yn neilltuol:
 - (i) mae'r gyllideb wedi tyfu i bron £900,000 y flwyddyn, ac er bod y cyfanswm sy'n cyfrannu tuag at gostau craidd nifer gyfyngedig o fudiadau gwirfoddol annibynnol sy'n canolbwyntio ar un maes wedi tyfu hefyd, mae cyfraniadau o'r fath at gostau craidd yn cynrychioli canran is na 40% o'r gyllideb gyfan erbyn hyn, gyda bron y cyfan yn mynd i gefnogi prosiectau a gaiff eu harwain yn bennaf gan fudiadau gwirfoddol, rhai gan gyrff cyhoeddus.
 - (ii) mae polisi cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad ar lefel strategol wedi datblygu'n sylweddol ers 2000.
3. Hon yw unig gyllideb yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol (UCAS) (ac eithrio'r hyn sy'n talu am ei staff ei hun). Mae iddi felly'r potensial o allu cael ei defnyddio i gefnogi unrhyw ddiben yr ystyrir ei fod yn cefnogi cyflawni amcanion UCAS, fel y'u mynegir yng Ngweledigaeth Cydraddoldeb UCAS. Mae'r ymrwymiad i fwyhau'r gwerth a ychwanegir gan wariant y gyllideb hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Uned flaenoriaethu'r defnydd ohoni i gefnogi blaenoriaethau'r Uned ar unrhyw gyfnod penodol o amser.
4. O gymharu â chyllidebau eraill Llywodraeth y Cynulliad, cyfyngwyd ar lefel yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y gronfa a'i defnydd.
5. Gan gadw mewn cof yr uchod ac ystyriaethau eraill a ddisgrifir yn yr adroddiad, ei gasgliad yw bod yn rhaid i newidiadau gael eu gwneud yn y blynyddoedd sy'n dod. Er mwyn cefnogi'r ystyriaeth o beth ddylid ei wneud, cyflwynir nifer o ddewisiadau ac argymhellion.

1. CYFLWYNIAD

1.1 Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol (UCAS). Mae'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1.

Adnoddau a Methodoleg

- 1.2 Gwnaed yr adolygiad gan Martin Rolph, ymgynghorydd yng Ngwasanaeth Ymgynghori Mewnol Llywodraeth y Cynulliad. Fe wnaeth UCAS, fel yr unig gleient am ei wasanaethau ar y comisiwn hwn, ddarparu'r gost am ei amser a threuliau teithio ar y dasg hon.
- 1.3 Casglwyd tystiolaeth trwy drafodaethau a dynodi ac ystyried dogfennau. Dadansoddwyd y deunydd a gafwyd a drafftiwyd yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd a mynych ar gynnydd gyda Phennaeth yr Uned.
- 1.4 Mae rhestr yn Atodiad 2 o'r rhai y cafwyd trafodaethau â hwy.
- 1.5 Hoffwn ddiolch i bawb o'r rhai a gymerodd ran am rannu gwybodaeth a barnau gyda mi.

2. HANES Y GRONFA HYRWYDDO CYDRADDOLDEB (Y GRONFA)

- 2.1 Roedd y gyllideb am 2000-2001 yn cynnwys £100,000 newydd y flwyddyn ar gyfer:
- datblygu agweddau o gydraddoldeb yn y cwricwlwm;
 - camau i weithredu argymhellion adroddiad MacPherson ar rwystro hiliaeth mewn addysg;
 - hyrwyddo buddiannau menywod, yn enwedig menywod o leiafrifoedd ethnig.
- 2.2 Wrth ystyried sut i weinyddu'r cyllid hwn, bwriadwyd i'r canlynol gael ei gadw mewn cof:
- yr angen i fod yn deg ac agored (ac i gael eu gweld i fod felly), gyda phenderfyniadau'n seiliedig ar asesiadau teg;
 - cydbwysedd rhwng "prif ffrydio" cydraddoldeb i raglenni cyllido a neilltuo cronfeydd penodol i hyrwyddo cydraddoldeb;
 - yr angen i sicrhau bod y cyrff Prydeinig sy'n gyfrifol am faterion gwahaniaethu'n parhau i chwarae eu rhan, yn hytrach na bod y Cynulliad yn disodli eu hymdrechion.

2000-2001

- 2.3 Y prif weithgareddau a gefnogwyd gan y Gronfa yn ei blwyddyn gyntaf oedd:
- Ymgynghorydd Annibynnol i ddarparu canllawiau ar blethu cydraddoldeb cyfle i mewn i holl bynciau'r cwricwlwm ynghyd â mesurau cefnogol ymarferol.
 - Gwaith peilot ymarferol gydag ysgolion unigol a chymunedau lleol/awdurdodau lleol i gefnogi argymhellion eraill MacPherson ynghylch atal ac addysgu.
 - Datblygu gallu rhwydwaith menywod a menywod o leiafrifoedd ethnig, rhwydweithiau du a lleiafrifoedd ethnig a rhwydweithiau anabled i gymryd rhan mewn deialog polisi gyda'r Cynulliad.
- 2.4 Yn ogystal â hyn, defnyddiwyd y Gronfa ar gyfer deunyddiau a digwyddiadau'r Ddeddf Hawliau Dynol ac ar gyfer gofynion a oedd yn codi yn ystod blwyddyn, er enghraifft, ar gyfer cynadleddau neu ddeunyddiau eraill. Roedd y gweithgareddau'n ymwneud ag addysg a'r rhai cysylltiedig â MacPherson yn bwydo i waith is-grŵp Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol.
- 2.5 Roedd y gwaith o adeiladu cynhwysedd rhwydweithiau'n berthnasol i ganfyddiadau ehangach MacPherson, ond hefyd yn perthnasu i'r tymor canol: datblygu cynhwysedd a strwythurau i alluogi'r rhai a oedd wedi cael eu tan-gynrychioli neu wedi dioddef gwahaniaeth ers amser maith i gynnal deialog wirioneddol gyda Llywodraeth y Cynulliad ar faterion polisi. Mewn blynyddoedd dilynol hwn oedd i ddod y defnydd unigol pwysicaf o'r Gronfa. Yn 2000-2001 dechreuodd gyda dyraniad o £50,000 i gefnogi'r holl rwydweithiau (sef eitem 3 ym mharagraff 2.4).

Dyraniadau o'r Gronfa mewn Blynyddoedd Dilynol

- 2.6 Yn y blynyddoedd yn dilyn 2000-2001, ymddengys fod y Gronfa (wrth ddarllen ffeiliau'r cyfnod) wedi gweithredu mewn dull cymharol ad hoc o flwyddyn i flwyddyn. Ymddengys mai'r patrwm cyffredinol oedd mai ystod cymharol gyfyngedig o gyrff a

fyddai'n ymwybodol o'r posibilrwydd o gyllid ac a fyddai'n cyflwyno cynigion neu geisiadau. Nid oedd unrhyw hyrwyddo systematig a thryloyw o'r ffaith fod y cyllid hwn ar gael, nac o'r egwyddorion cyffredinol a oedd yn llywodraethu penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd.

- 2.7 Roedd prosesau manwl yn ymwneud â gweinyddu pob grant unigol o'r Gronfa, er mwyn sicrhau cysondeb a phriodoldeb wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus. Roedd y broses fel arfer yn cynnwys trafodaethau rhwng UCAS a'r corff oedd yn dderbynnydd posibl yr arian. Wedyn ceisid cael cymeradwyaeth gan Weinidog er mwyn i gynigion grant gael eu gwneud, naill ai mewn rhestr flynyddol gychwynnol o amrywiol gyrff (lle byddai'r defnydd o bob grant yn cael ei esbonio ond heb thema/themâu'n eu huno), neu mewn cyflwyniad atodol i'r Gweinidog yn ystod y flwyddyn, yn aml mewn perthynas ag un grant yn unig.
- 2.8 Yn dilyn cymeradwyaeth Gweinidog i gynnig grant gael ei wneud, byddai llythyr ffurfiol yn cynnig grant yn cael ei wneud. Roedd cynnwys llythyrau cynnig yn cynnwys yr amodau a oedd ynghlwm â'r cynnig o grant, diben y grant, a'r gofynion ar y derbynnydd i adrodd ar y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy.

Dyraniad y gyllideb yn 2006-07

- 2.9 Cafodd cyllideb gyffredinol y Gronfa yn 2006-07 ei dyrannu fel a ganlyn:-

| Cyfraniadau tuag at gyllido craidd * | £ |
|---|----------------|
| Cymdeithas Lleaifrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) | 102,500 |
| Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (WWNC) | 78,375 |
| Stonewall Cymru | 84,458 |
| Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Cymru (MEWN) | 50,000 |
| Cyllido Prosiectau | £ |
| Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) Croeso | 100,000 |
| Dyletswyddau Anabledd/Rhyw | 70,000 |
| Tâl Cyfartal | 70,000 |
| Fforwm Ieuenctid** | 60,000 |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | 57,000 |
| Gweithdy'r Menywod | 53,120 |
| Anabledd Cymru (ail flwyddyn o 3) | 50,000 |
| Secondai Ymchwil Cydraddoldeb | 40,000 |
| Prosiect Modelu ar draws Meysydd | 40,000 |
| Swyddog Dyletswydd Sector Cyhoeddus y Comisiwn Hawliau Anabledd | 18,000 |
| Fforwm LHD (darparwyd gan THT) | 17,000 |
| Saheli | 17,000 |
| Diwrnod Rhyngwladol y Merched | 15,000 |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched | 10,000 |
| Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown | 10,000 |
| Mardi Gras | 5,000 |
| Lleoliadau Hwylus | 5,000 |
| CYFANSWM | 934,000 |

* Cytundebau 3 blynedd yn bennaf, ond rhywfaint o gytundebau olynol un flwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau craidd

**£60k a dderbyniwyd oddi wrth Gronfa Cysylltu Cymunedau y Swyddfa Gartref

*** Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys £50,000 a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

Dyraniad o gyllideb y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb yn 2007-2008 (fel yr oedd ym Medi 2007)

2.10 Cyllideb 2006-07 oedd yr un fwyaf hyd yma, ac yn 2007-08 fe wnaeth maint y gyllideb yn ei chyfanrwydd aros ar lefel rhywbeth yn debyg, fel a ganlyn:

| Cyfraniadau tuag at gostau craidd | £ |
|---|----------|
| AWEMA | 102,500 |
| Stonewall Cymru | 78,797 |
| Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (WWNC) | 78,797 |
| Mewn Cymru | 50,000 |
| Gweithdy Menywod Caerdydd | 30,868 |

Cyllido Prosiectau

| | |
|--|---------|
| Cynllun Cydraddoldeb Unigol (SES) | 133,000 |
| Fforwm Ieuencid o Leiafrifoedd Ethnig (MEYF)* | 120,000 |
| Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE)(Prosiect Croeso) | 105,000 |
| Blwyddyn Cyfleoedd Cyfartal Ewrop (EYEO)** | 100,000 |
| Anabledd Cymru (blwyddyn olaf o 3) | 50,000 |
| Rhaglen Lleoliadau Hwylus (AVP) | 25,000 |
| Achos Busnes dros Hyfforddiant Cydraddoldeb | 20,000 |
| Diwrnod Rhyngwladol y Merched (IWD) | 15,000 |
| Tâl Cyfartal | 13,288 |
| Swyddog Dyletswydd Gyhoeddus y Comisiwn Hawliau Anabledd | 10,000 |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | 9,815 |
| Mardi Gras | 5,000 |
| Canolfan Cymunedau Affricanaidd (ACC) | 5,000 |
| Cymdeithas Pacistan Casnewydd a Gwent | 2,000 |

Cyfanswm **945,065**

*Cynhwysa £60,000 oddi wrth Gronfa Cydlyniant Cymunedol y Swyddfa Gartref

** Cynhwysa £50,000 o gyllid cyfatebol oddi wrth yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

***Y Gyllideb a ddyrannwyd o'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb i'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol am 07/08 yw £874,000. £984,000 wrth ychwanegu £60,000 oddi wrth y Swyddfa Gartref (MEYF) a £50,000 oddi wrth yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (Blwyddyn Cyfleoedd Cyfartal Ewrop)

3. MATERION CYDRADDOLDEB (A RHAI CYSYLLTIEDIG) O BWYS

Prif Ffrydio

- 3.1 Y cyfeiriad allweddol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn anelu tuag ato mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth yw ei “Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb”. Datblygwyd hon mewn ymateb i argymhelliad mewn adroddiad o Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol, a gyhoeddwyd at ddiwedd 2004, “Prif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru” a oedd yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth prif ffrydio cydraddoldeb.

Y diffiniad o brif ffrydio a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel y’i diffiniwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, sef mai “hanfod ‘Prif Ffrydio’ cydraddoldeb yw integreiddio parch at amrywiaeth ac egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfle cyfartal i fywyd bob dydd y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill. Golyga hyn y dylid cynnwys materion cydraddoldeb o’r cychwyn fel rhan annatod o’r broses o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau ac y dylai cyflawni cydraddoldeb ddarparu gwybodaeth am bob agwedd o waith pob unigolyn o fewn sefydliad.” Awgryma hyn hefyd yr angen i ystyried pob agwedd o gydraddoldeb, os oes gofynion deddfwriaethol neu beidio dros wneud hynny.

- 3.2 Nid diben ynddo’i hun yw prif ffrydio felly, ond proses ar gyfer arwain at well dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl Cymru. Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a chefnogaeth i Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad, cymerwyd amrywiol gamau gan gynnwys:
- Archwiliad o Gydraddoldeb – i ddarparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer strategaeth gydraddoldeb.
 - Pencampwyr Cydraddoldeb – i gynnwys pob agwedd o waith Llywodraeth y Cynulliad.
 - Rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb a seminarau ymwybyddiaeth i fod ar gael i’r holl staff.
- 3.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydymffurfio â’i hymrwymiad statudol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb i’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y bydd dadl amdano wedyn mewn cyfarfod llawn o’r Cynulliad. Roedd y seithfed adroddiad (2005-06) yn cydnabod bod, er i’r Cynulliad wneud pob ymdrech i wella, rhywfaint o ffordd i fynd at sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu dull sy’n canolbwyntio o ddifrif ar ganlyniadau.
- 3.4 Roedd yr wythfed adroddiad (2006-07) yn gallu adrodd cynnydd sylweddol mewn meysydd megis y rhai a restrwyd yn y paragraff blaenorol, gan gynnwys lansio Adolygiad Seiliedig ar Dystiolaeth ar Gydraddoldeb a datblygu cyfarpar asesu effeithiau, a fydd yn cyfrannu at gynorthwyo Adrannau Llywodraeth y Cynulliad a’u partneriaid i asesu’r effaith y mae polisiâu a rhaglenni’n ei gael ar ganlyniadau.

Dyletswyddau Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru

- 3.5 Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru un o'r setiau mwyaf eglur o ddyletswyddau mewn perthynas â chyfle cyfartal, fel y'i mynegir yn awr yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Ddeddf hon yn parhau'r â'r ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

1. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol gyda'r nod o sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi'r sylw dyledus i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.
2. Ar ôl pob blwyddyn ariannol rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn cynnwys -
 - a. datganiad o'r trefniadau a wnaed yn unol ag isadran (1) a oedd yn eu lle yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac
 - b. asesiad o ba mor effeithiol oedd y trefniadau hynny wrth hyrwyddo cyfle cyfartal a rhaid cyflwyno copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad.

Fframwaith Deddfwriaethol Ehangach Cydraddoldeb

- 3.6 Atgyfnerthir cyd-destun ehangach cydraddoldeb gan gorff mawr, a hefyd un sy'n tyfu, o ddeddfwriaeth arall gan gynnwys

:

- Deddf Cyflog Cyfartal 1970
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd a Chredo) 2003
- Deddf Cydnabod Rhyw 2004
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005
- Deddf Cydraddoldeb 2006 (gan gynnwys darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) o fis Hydref 2007 i ymgymryd â: gwaith y tri Chomisiwn cydraddoldeb presennol; cyfrifoldeb dros faterion cydraddoldeb mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chredo ac oedran; yn ogystal â hyrwyddo dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthynas dda.)

Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol

- 3.7 Fe wnaeth Deddf Cydraddoldeb 2006 ddiwygio Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, gan greu dyletswydd gyffredinol o ran y rhywiau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth weithredu swyddogaethau cyhoeddus eu naws, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod; a
- Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ar sail rhyw.

3.8 Fe wnaeth Llywodraeth y DU, trwy Orchymyn Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2006, gyflwyno dyletswyddau penodol hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i nifer o gyrff cyhoeddus ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol sy'n pennu sut y byddant yn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod. Yn dilyn cyngor gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad, penderfynodd y Cynulliad na ddylai'r gorchymyn hwn, mewn perthynas â Chymru, fod yn gymwys yn unig i awdurdodau cyhoeddus yr oedd eu holl swyddogaethau'n rhai cyhoeddus, oherwydd teimlid nad oedd y Gorchymyn yn ddigon cryf ar gyflog cyfartal.

Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd

3.9 Bwriad Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005) yw gyrru diwylliant o newid cadarnhaol yn ei flaen ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r Ddeddf ddiwygiedig yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau anabl a phersonau eraill.
- Dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.
- Dileu aflonyddu ar bersonau anabl sy'n gysylltiedig â'u hanableddau.
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bersonau anabl.
- Annog cyfranogiad gan bersonau anabl mewn bywyd cyhoeddus; a
- Cymryd camau i roi ystyriaeth i anableddau personau anabl, hyd yn oed pan fo hynny'n golygu trin personau anabl yn fwy ffafriol na phersonau eraill

Deddfwriaeth o Bwys sy'n Debygol yn y Dyfodol

3.10 Roedd gan Lywodraeth y DU ymrwymiad maniffesto i gyflwyno Mesur Cydraddoldeb Unigol yn ystod ei thymor Seneddol cyfredol. Cyhoeddodd yr Adolygiad o'r Ddeddf Gwahaniaethu ddogfen ymgynghorol "Fframwaith ar gyfer Tegweh" ar 12 Mehefin. Parhaodd yr ymgynghori tan 4 Medi 2007 ac roedd yn cynnwys cynigion ar gyfer symleiddio a moderneiddio fframwaith cyfraith gwahaniaethu a'i gwneud yn fwy effeithiol.

Agenda strategol gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad

3.11 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mewnosod ei hymrwymiad i gyfle cyfartal yn gadarn o fewn ei dogfennau strategol allweddol. Cymru: Gwlad Well oedd dogfen strategol allweddol gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru am 2003-07. Roedd yn nodi cydraddoldeb fel un o'r egwyddorion allweddol.

Cymru: Gwlad Well

“Byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, cysylltiadau hiliol da a chydaddoldeb hiliol ac yn mynd i’r afael â gwahaniaethu ar sail oedran ac anabledd. Rydym am i’r bobl hynny sydd mewn bywyd cyhoeddus adlewyrchu holl amrywiaeth y boblogaeth”.

3.12 Y weledigaeth oedd creu gwlad decach, fwy llewyrchus, iachach wedi’i haddysgu’n well sydd wedi’i gwreiddio mewn ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol. Roedd cyfle cyfartal yn ganolog i’r agenda hwn, sy’n cydnabod yr angen i wasanaethu anghenion amrywiol yr holl ddinasyddion a chymunedau o fewn Cymru, a bod yn weithgar wrth geisio newid bywydau’r rheini sy’n dioddef anfantais. Er mwyn cyflawni hyn, roedd Cymru: Gwlad Well yn canolbwyntio ar themâu a oedd yn cynnwys:

- Mwy a gwell swyddi a gwella sgiliau;
- Gwella iechyd; a
- Datblygu cymunedau cryf a diogel.

3.13 Y brif ddogfen gyfredol sy’n gyrru strategaeth Llywodraeth y Cynulliad am (2007-2011) yw cytundeb Cymru’n Un, sy’n cynnwys nifer o ymrwymadau’n ymwneud â chydaddoldeb.

Cytundeb Cymru’n Un

Ein nod yw meithrin cymunedau cydlynus, amrywiol a chyfiawn lle mae pobl yn teimlo bod eraill yn eu gwerthfawrogi, beth bynnag eu gallu corfforol, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hil, eu credo neu eu hiaith.

Dros y pedair blynedd nesaf:

- Byddwn yn gweithio i sicrhau llwyddiant y Corff Cydraddoldeb Unigol newydd yng Nghymru, gan dynnu ar brofiad y dull hwn o weithio’n annibynnol yng Ngogledd Iwerddon.
- Byddwn yn parhau i gydweithredu â’r Fforwm Aml-ffydd, a hynny’n fwy nag erioed, er mwyn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ar draws diwylliannau a chrefyddau; byddwn yn datblygu ymhellach fodelau arfer da a’u lledaenu ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy’n cydnabod ac yn parchu amrywiaeth yn ogystal â’r hyn sy’n gyffredin rhwng pobl.
- Byddwn yn gweithredu Strategaeth Cymru Gyfan ar Sipsiwn a Theithwyr.
- Byddwn yn mireinio ac yn gweithredu’r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid, gan gynnwys yr argymhellion ar fuddiannau plant ar eu pen eu hunain sy’n ceisio lloches.
- Byddwn yn datblygu strategaeth i leihau troseddau casineb.

Creu'r Cysylltiadau

- 3.14 Mae Creu'r Cysylltiadau (MtC) yn ceisio annog Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru i ddod ymateb yn well i anghenion unigolion a chymunedau. Mae gweledigaeth Creu'r Cysylltiadau, a gefnogir gan argymhellion Adolygiad Beecham, yn seiliedig ar fodel o lywodraethu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd (hy yn hytrach na bod cystadleuaeth fasnachol yn brif yrrwr). Mae datblygu egwyddorion craidd gwasanaethau cwsmeriaid yn rhan allweddol.

Creu'r Cysylltiadau: Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Rhaid i bob dinesydd gael y cyfle i gyfrannu at fywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'r hil, iaith, crefydd, anabledd, oedran, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Golyga cyfiawnder cymdeithasol fod yn rhaid inni estyn allan at y bobl hynny sydd anoddaf eu cyrraedd a thargedu adnoddau lle mae'r angen mwyaf. Rhaid i'n gwasanaethau cyhoeddus gael yr hyblygrwydd i ymateb i'r rhai mwyaf difreintiedig ag agored i niwed.

- 3.15 Mae i nod o un cyfranogiad gan ddinasyddion a chymunedau mewn gwasanaethau cyhoeddus oblygiadau amlwg i gyfle cyfartal.

Pedair Prif Egwyddor Creu'r Cysylltiadau

- **Canolbwyntio ar y dinasyddion:** gwasanaethau sy'n ymateb yn well i anghenion y defnyddwyr lle mae pobl a chymunedau yn rhan o'r broses o gynllunio'r modd y caiff y gwasanaethau eu darparu;
- **Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:** pawb i gael y cyfle i gyfrannu ac estyn allan at y bobl hynny sydd anoddaf i'w cyrraedd.
- **Cydweithio fel y Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru:** mwy o gydlynw rhwng darparwyr er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy, safonol ac ymatebol.
- **Gwerth am Arian:** manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Unigol am 2007

- 3.16 Mae Llywodraeth y Cynulliad, trwy'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol (UCAS), wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Unigol am 2007 a fydd yn cefnogi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Unigol Llywodraeth y Cynulliad o 2008.

Cynllun Cydraddoldeb Unigol (2008)

- 3.17 Gofynnwyd i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad nodi amcanion allweddol o fewn eu Cynlluniau Gweithredol, ynghyd â'r canlyniadau a ragamcanwyd ganddynt, trwy'r holl feysydd cydraddoldeb. Bydd cynhyrchu cynlluniau gweithredu adrannol o'r fath yn helpu sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei gynnwys o gychwyn y broses gynllunio, ac yn annog meddwl ar draws holl Adrannau Llywodraeth y Cynulliad ar sut y gall cydraddoldeb gysylltu ag amcanion allweddol pob Adran; a hefyd newid y persbectif fwyfwy o fynd i'r afael a phob maes ar ei ben ei hun tuag at ddull ehangach ar draws meysydd, wrth i'r symudiad tuag at brif ffrydio dyfnach a chadarnach o gydraddoldeb gael ei ddilyn gan bob Adran.
- 3.18 Yn ogystal â defnyddio deunydd a ddarparwyd gan bob Adran o'u Cynlluniau Gweithredol, mae UCAS yn comisiynu rhaglen o weithgaredd a fydd yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru. Bydd y canlyniad o'r rhaglen hon yn darparu gwybodaeth i'r Adrannau ac i UCAS wrth i'r Cynllun Cydraddoldeb Unigol a Chynlluniau gweithredu gael eu datblygu.
- 3.19 Y nod yw cael safbwyntiau mewn perthynas â'r chwe maes cydraddoldeb (hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chredo, cydnabod rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), gyda'r iaith Gymraeg hefyd yn ystyriaeth allweddol i gael ei gwau i mewn i'r gwaith. Mae gofyniad eglur yn y comisiwn hwn fod grwpiau sy'n draddodiadol "anodd eu cyrraedd/anodd gwranddo arnynt" yn cael eu cynnwys yn benodol yn y broses ymgysylltu. Mae Hawliau Dynol yn gosod sail i'r holl agenda cydraddoldeb hwn.
- 3.20 Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Unigol drafft ei ystyried gan Gabinet Llywodraeth y Cynulliad yn gynnar yn 2008 a chaiff ei ddadlau mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol yn fuan wedyn.

Archwiliad Cydraddoldeb

- 3.21 Gwnaed yr archwiliad cydraddoldeb, un o argymhellion allweddol yr Adroddiad Prif Ffrydio Cydraddoldeb, gan ymgynghorwyr annibynnol fel cam pwysig tuag at adeiladu arbenigedd parhaol mewn Prif Ffrydio. Roedd yr archwiliad yn cynnwys asesiad o tuag hanner cant o bolisiâu a strategaethau'r Cynulliad. Roedd yn mynd i'r afael â'r holl feysydd cydraddoldeb. Fe wnaeth aseswyr archwilio'r graddau yr oedd polisiâu allweddol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn osgoi gwahaniaethu ac effaith niweidiol ar amrywiol sectorau o'r cyhoedd.
- 3.22 Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad i bob adran gyfranogol fel canllaw ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb yn eu gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol. Gofynnwyd i Adrannau adeiladu argymhellion i mewn i'w rhaglenni gwaith ymlaen llaw. Mae'r archwiliad wedi arwain at well dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb o fewn Adrannau a sut y mae'r rhain yn perthnasu i faes arbenigedd polisi swyddogion adrannau, ac yn ychwanegu ato.

Asesiad o'r Effaith

- 3.23 Diben asesiad o'r effaith yw darganfod (ar **ddechrau'r** dasg o lunio polisi) sut y gall polisiâu effeithio mewn ffyrdd gwahanol ar unigolion a grwpiau, ac edrych ar sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau posibl, fel gweithgaredd prif ffrwd.

- 3.24 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu canllawiau ar fethodoleg gwneud polisiau cynhwysol (ee asesiad o'r effaith) er mwyn helpu gyrru newidiadau tuag at y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu ei busnes ac yn datblygu ei pholisiau strategol, trwy sicrhau bod prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan sylfaenol o'r broses hon o wneud polisiau a'u gweithredu. Bydd gan wneuthurwyr polisiau offeryn hygyrch, hawdd ei ddefnyddio, addas i'r diben a gweladwy iawn a fydd â pherthynas glir a buddiol ag Offeryn Integreiddio Polisiau Llywodraeth y Cynulliad a phrosesau cynllunio busnes eraill. Cafodd peilot o'r fethodoleg asesu'r effaith ei gynnal gyda Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuloedd (CAFCASS).
- 3.25 Mewn rhannau eraill o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae offerynnau asesu'r effaith hefyd yn datblygu. Mae gan GIG Cymru offeryn asesu'r effaith y mae wrthi'n ei adolygu, wedi ei arwain fel Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG Cymru. Mewn llywodraeth leol, mae amrywiol offerynnau'n cael eu datblygu. Lanswyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hyrwyddo triniaeth deg a chyfartal mewn gwasanaethau a swyddi llywodraeth leol.

Y Sail Dystiolaeth

- 3.26 Fe wnaeth yr Archwiliad Cydraddoldeb ddangos safle'r man cychwyn. Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol a Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Cymdeithasol yn adeiladu ar y gwaith hwn trwy gynnal adolygiad o sail dystiolaeth cydraddoldeb. Mae ymchwilydd wedi cael ei secondio i Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Cymdeithasol i adolygu data ac ymchwil cydraddoldeb a chlustnodi ffynonellau y gellir eu defnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi polisi a chyflenwi, a helpu adrannau i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb statudol. Mae'r prosiect yn ddibynnol ar hyn o bryd ar gyllid y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb i dalu am gost y secondai, gyda Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Cymdeithasol yn darparu cefnogaeth broffesiynol a goruchwyliaeth ar gyfer y secondai ac yn talu ei chostau teithio a chynhaliadaeth.

Adolygiad o Sail Dystiolaeth Cydraddoldeb

Mae'r prosiect yn datblygu sail dystiolaeth gynhwysfawr a hygyrch ar gydraddoldeb er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu a chyflawni polisiau. Ei amcanion yw:

- Adolygu'r graddau y mae data llinell sylfaen ar gael.
- Ymgynghori â rhanddeiliaid allanol a mewnol.
- Cynnal dadansoddiad manwl o faterion cydraddoldeb â blaenoriaeth iddynt.
- Adnabod bylchau yn y dystiolaeth.
- Datblygu offer ac adnoddau i gefnogi defnydd adrannau o dystiolaeth cydraddoldeb; a
- Darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu dangosyddion perfformiad a data monitro rheolaidd arall.

Ymgynghorir â rhanddeiliaid allanol er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer adnabod y bylchau mewn dystiolaeth a meysydd anghydraddoldeb allweddol. Bydd dystiolaeth a gasglwyd yn ystod oes y prosiect yn cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth gyflawni ei dyletswyddau statudol, ac yn enwedig wrth gynnal asesiadau o'r effaith a datblygu a monitro cynlluniau gweithredu cydraddoldeb.

Bydd sail dystiolaeth gadarn hefyd yn cefnogi datblygu a chyflawni polisïau. Bydd adrannau'n gallu cael at ystod o ffynonellau data ac ymchwil y gellir ei ddefnyddio i ddeall materion yn well, sefydlu llinellau sylfaen a monitro/gwerthuso polisïau/rhaglenni.

Cyfathrebu

- 3.27 Dangosodd yr archwiliad yr angen i gyfathrebu negesau'n effeithiol a sicrhau bod arfer dda'n cael ei rhannu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i rhanddeiliaid ledled Cymru. Enghraifft o weithredu a wnaed yn y maes hwn oedd datblygu'r Cynllun Anabledd, lle cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru. Roeddent wedi eu hanelu at bobl anabl yn ogystal â chynrychiolwyr o fudiadau anabledd. Fe wnaethant ddarparu cyfle i themâu a materion allweddol gael eu hadnabod a'u trafod. Yn dilyn y digwyddiadau hyn, cafodd adroddiadau cryno o themâu a materion allweddol eu bwydo'n ôl i adrannau datblygu polisïau sydd, yn eu tro, yn ymgorffori'r adborth i Gynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Anabledd. Defnyddiwyd cyllid o'r Gronfa ar gyfer digwyddiadau o'r fath.
- 3.28 Defnyddiwyd dull tebyg o weithredu ar gyfer y Cynllun ar Sail Rhyw.
- 3.29 Mae pecyn cymorth cyfathrebu wedi cael ei ddatblygu i helpu cyfathrebu effeithiol gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig a helpu cyrraedd cymunedau ac unigolion o bob grŵp ethnig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gallu cyflwyno delwedd gadarnhaol o amrywiaeth yn ein cysylltiadau a'n cyhoeddiadau. Er enghraifft, gellir ei ddefnyddio wrth gynllunio Ymgyrchoedd Penodiadau Cyhoeddus i annog mwy o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i ymgeisio am swyddi. Gall Timau Cyfathrebu'r Gweinidogion hefyd ddefnyddio'r pecyn cymorth wrth gynllunio ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd/gwybodaeth i'r cyhoedd.

Pecyn Cymorth Cyfathrebu

Fe wnaeth Timau Cyfathrebu'r Gweinidogion Iechyd a Chyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ddefnyddio'r pecyn cymorth cyfathrebu yn yr ymgyrchoedd "Cefnau Cymru" a "Croeso i Gymru". Caiff y pecyn cymorth ei ddatblygu ymhellach trwy weithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru megis yr RNIB a Chyngor Abertawe. Y nod yw cynyddu amrywiaeth a chwmpas astudiaethau achos i'w rhannu gyda holl sefydliadau'r sector cyhoeddus. *[Bydd yr astudiaethau achos yn cael eu postio i'r wefan ynghyd â'r pecyn cymorth yn haf 2007 - i'w ddiweddarau].*

Materion Sector Gwirfoddol

- 3.30 Er y gellir gwario cyllid y Gronfa mewn unrhyw sector, mae'r rhan fwyaf o gyllid y Gronfa hyd yma wedi cael ei ddarparu i sefydliadau sector gwirfoddol. Mae felly'n briodol ystyried agwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at y sector gwirfoddol yn ei gyfanrwydd, nid lleiaf oherwydd Prif Ffrydio mewn perthynas â materion cydraddoldeb.
- 3.31 Cafodd Cod Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cyllido'r Sector Gwirfoddol ei gynhyrchu mewn ymateb i Gynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd y Cod yn ei gwneud hi'n glir "fod gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol

annibynnol nad ydynt am wneud elw ran allweddol [mewn lleddfu effeithiau tlodi, gwella ansawdd bywyd yng Nghymru, hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynnwys y rhai sydd wedi eu heithrio o'r gymdeithas] sy'n wahanol i'r hyn a wneir gan y wladwriaeth a'r farchnad ... maent yn gyfrwng pwysig i annog defnyddwyr i fod yn rhan o'r gwaith o lunio gwasanaethau a'u rhoi ar waith i'r rhai a fyddai, fel arall, heb lais."

- 3.32 Fe wnaeth y cod ymrwymo'i hun i wneud penderfyniadau seiliedig ar egwyddorion sy'n cynnwys:
- a) cydnabyddiaeth o'r rhan y gall y sector cyhoeddus ei chwarae mewn cyflawni amcanion polisiau strategol [Llywodraeth y Cynulliad];
 - b) penderfyniadau amserol ar ariannu;
 - c) ymrwymadau ariannu 3 blynedd, yn amodol ar berfformiad, gyda chyllid craidd strategol, gyda chyllid cadarn i flwyddyn un a llinellau sylfaen eglur ar gyfer blynyddoedd dau a thri;
 - d) darpariaeth ar gyfer talu ymlaen llaw lle bo hynny'n briodol;
 - e) trafodaeth ymlaen llaw a rhybudd rhesymol cyn newidiadau polisi neu benderfyniadau eraill a allai arwain at ddileu grantiau neu leihad sylweddol ynddynt;
 - f) monitro a gwerthuso i fod mor syml ag sy'n bosibl, sy'n gyson â sicrhau defnydd priodol o arian cyhoeddus.
- 3.33 Dychwelaf at berthnasedd polisi cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad ar y ffordd y mae'n ariannu cyrff gwirfoddol i'r adolygiad hwn yn Adran 4.

Enghreifftiau o Brif Ffrydio ar waith

3.34 Byddai'n realistig ystyried y Strategaeth Brif Ffrydio Cydraddoldeb fel cyfeiriad hirdymor y symudiad cyffredinol. Nid yw'n syndod felly fod gwahaniaeth yn y pellter y mae gwahanol rannau o Lywodraeth y Cynulliad (a gwahanol rannau'r sector cyhoeddus ehangach a sectorau eraill) wedi'i symud. Mae niferoedd cynyddol o enghreifftiau o arferion da mewn amrywiaeth o adrannau, yn y GIG, mewn awdurdodau lleol ac mewn lleoedd eraill.

3.35 Gallai rhywun ddisgwyl i'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fod â diddordeb neilltuol mewn cydraddoldeb, yn wyneb ei ganolbwynt ar Gyfiawnder Cymdeithasol, fel yr awgryma'r enghreifftiau canlynol:

Polisi Tai a Chydraddoldeb

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai'n ariannu Tai Pawb (elusen) sy'n gweithredu prif ffrydio mewn nifer o ffyrdd. Bob blwyddyn mae'n trefnu Cynhadledd Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; mae'n cefnogi darparwyr tai i wireddu eu strategaethau tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; cynnal cyfarfodydd Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol mewn Tai (REiHN) etc. Mae wrthi'n ehangu gwasanaeth ymgynghori.

Polisi Cymunedau'n Gyntaf a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ar ôl arolwg o drefniadau cefnogaeth ar gyfer Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf, a chyngor gan grŵp ymgynghorol, mae Cyfarwyddiaeth Gymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi

pwysleisio lle canolog prif ffrydio materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf (Nodyn Canllaw a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2007).

Fel cam cyntaf yn y broses, mae ar Lywodraeth y Cynulliad eisiau i Bartneriaethau wneud hunanasesiad o'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd i brif ffrydio materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn eu partneriaeth. Rhaid i bartneriaethau gwblhau a dychwelyd ffurflen wedi ei harwyddo'n esbonio hyn fel rhan o'r broses o wneud ceisiadau.

Am 2007/08, gall pob partneriaeth wneud cais uniongyrchol i Lywodraeth y Cynulliad i ymgymryd â gwaith ar brif ffrydio materion cydraddoldeb ac amrywiaeth – hyd at uchafswm o £5,000. O 2008/09 mae dyraniad ychwanegol (wedi'i neilltuo) o £5,000 wedi cael ei ychwanegu at gyllideb pob Partneriaeth i gefnogi prif ffrydio materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Disgwylir i bartneriaethau ddangos beth y maent wedi'i wneud ar y materion hyn fel rhan o'r broses adrodd flynyddol.

3.36 Yn gynyddol mewn blynyddoedd diweddar, mae'r rhai sy'n ymwneud ag iechyd economaidd Cymru hefyd wedi rhoi sylw i gydraddoldeb fel ystyriaeth, fel yn achos DEIN.

Cydraddoldeb a Pholisi Economaidd – rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2007-2013

Mae gorchfygu anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Mae ymrwymiad i gyfle cyfartal yn un o'r 2 thema drawsbynciol o fewn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE. Yn ystod y cyfnod 2000-2006, amlygwyd integreiddio themâu trawsbynciol fel patrwm ar lefel strategol o fewn Cymru. Gan adeiladu ar yr arfer da hwn bydd Llywodraeth y Cynulliad (fel Awdurdod Rheoli rhaglenni 2007-2013) yn paratoi canllawiau lefel gweithgarwch, ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos o arfer gorau, i helpu noddwyr prosiectau wrth iddynt fynd i'r afael â chyfleoedd cyfartal o fewn eu cynlluniau prosiect. Un amcan allweddol yw darparu mewnbyn arbenigol yn **gynnar** yn y broses.

Ystyrir themâu cydraddoldeb fel gweithgareddau cymwys am gefnogaeth ariannol, felly gellir gwrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol posibl neu fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i integreiddio (ee mewn gweithlu mwy amrywiol). Golyga hyn fod potensial i gyllid y Gronfa gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol. Mae rhaglenni'n cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion cynnyrch a chanlyniadau rhyw benodol, yn enwedig o fewn rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartion â diddordeb, i helpu sicrhau bod materion cydraddoldeb yn gadarn ar yr agenda o'r dechrau, and nid wedi eu gosod arno'n ddiweddarach. Mae Ymgynghorydd Cydraddoldeb hefyd wedi paratoi mewnbyn arbenigol i drafodaethau ar y dangosyddion cydraddoldeb a gynigir ar gyfer y rhaglen newydd. Yn ogystal â digwyddiadau a drefnir gan bartneriaid, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) hefyd wedi cynnal digwyddiadau ymgynghori – ac roedd pob un yn cynnwys gweithdy ar integreiddio cydraddoldeb rhywiol a chyfleoedd cyfartal.

Curiad Calon Cymru

Cafodd Partneriaeth Datblygu Curiad Calon Cymru ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, hyd at £?m yn y cyfnod o fis Gorffennaf 2005 hyd fis Hydref 2007 o dan Raglen Mentrau Cymunedol EQUAL, a weinyddir yng Nghymru gan WEFO. AWEMA yw'r

partner arweiniol gyda 15 o bartneriaid craidd eraill (rhai ohonynt yn rhai Cymru gyfan, llawer o rai lleol, ee Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol a 5 o bartneriaid ehangach i gyflawni'r gwaith). Fe wnaeth y cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd o'r Gronfa helpu AWEMA ymgymryd â'i swyddogaeth hyd nes yr oedd y bartneriaeth wedi'i ffurfio ac y gallai AWEMA godi taliadau rheoli o'r prosiectau a ariannir gan EQUAL.

3.37 Rhaid i bolisiâu Iechyd a Gofal Cymdeithasol roi sylw i anghenion pobl sydd ymysg y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae eu partneriaethau gyda'r rhai hynny'n helpu gwneud hyn.

Polisiâu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chydraddoldeb

Y ddwy strategaeth drosfwaol a fu'n gefndir i waith yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC) dros y cyfnod diweddar yw'r strategaeth iechyd "Cynllun Oes" a'r strategaeth gwasanaethau cymdeithasol "Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol". O fewn AIGC, mae'r Isadrn Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor a'r Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd yn gweithredu cynlluniau grant gyda'r amcan cyffredinol o gefnogi gweithgareddau craidd cyrff gwirfoddol Cymru gyfan yn y sector gofal iechyd a chymdeithasol ym meysydd anabledau dysgu, iechyd meddwl, pobl hŷn, gofalwyr ac anabledd corfforol/synhwraidd.

Cyhoeddir nodiadau canllawiau i gynghori ymgeiswyr posibl am bob un o'r cynlluniau hyn sy'n nodi'n glir y meini prawf cymhwysedd. Mae'r ffurflen gais yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos faint y byddai eu mudiad neu sefydliad yn ei gyfrannu at gyflawni agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad. Wrth asesu ceisiadau, rhoddir pwyslais sylweddol ar y graddau y barnwyd bod pob cais yn debygol o gyfrannu at amcanion strategol y Cynulliad. Mae cyrff sy'n derbyn, neu wedi derbyn, cyllid yn cynnwys Anabledd Dysgu Cymru, Gofalwyr Cymru, Age Concern Cymru, MIND Cymru, Anabledd Cymru, Hafal, Mencap Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru..

3.38 Mae addysg a dysgu'n gerbydau allweddol yn y daith tuag at Gymru decach. Mae felly'n neilltuol o bwys fod APADGOS, fel yr Adran arweiniol yn y maes hwn yn prif ffrydio cydraddoldeb yn gynnar i'w weithgareddau a hynny trwy bob grŵp oedran. Dyma ddwy enghraifft yn unig.

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)

Mae APADGOS wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru – proses a ddechreuwyd yn 2002. Wrth gyrraedd ei ganfyddiadau a'i argymhellion ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn y dyfodol, rhoddwyd pwyslais sylweddol ar ddatblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal, sy'n flaenoriaethau creiddiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Un o amcanion yr adolygiad oedd datblygu cwricwlwm gyda gweithgareddau dysgu priodol a oedd: yn gynhwysol ac yn darparu cyfle cyfartal; yn canolbwyntio ar anghenion, a diwallu anghenion, pob dysgwr, gan gynnwys y dysgwr 'cyfartalog' yn ogystal â'r rhai, er enghraifft, gydag anawsterau dysgu, anabledau, y rhai difreintiedig, anodd eu cymell, mwy abl a thalentog, o wahanol grwpiau hiliol/diwylliannol, ac yn edrych ar ôl plant.

Mae Gorchymyn a Fframwaith pob pwnc yn dechrau gyda'r testun, "Cynnwys pob dysgwr". Mae hyn yn gwbl agored yn ceisio sicrhau cynhwysiant a hygyrchedd i bob disgybl.

Yn 2001, cyhoeddwyd canllawiau ar gyfle cyfartal yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru.

Datblygwyd y canllawiau hyn mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal.

Ymchwil ar rwystrau i ddysgu sy'n effeithio ar rai cymunedau

Fe wnaeth APADGOS ariannu ymchwil a arweiniodd yn 2007 at adroddiad gan York Consultants, "Rhwysterau i Ddysgu ymhlith cymunedau penodol" sydd wedi amlygu amrywiol rwystrau cymdeithasol a diwylliannol i ddysgu mewn 4 cymuned a ddewiswyd yn Ne Ddwyrain Cymru (Somali, Pacistanaid, Bangladeshaid, Africanaid-Caribiaidd gyda grŵp rheoli Gwyn). Mae llawer o'r canfyddiadau ac argymhellion wrth reswm yn canolbwyntio'n benodol ar faterion addysgol, ond mae'n ddiddorol nodi bod gan un mater yn enwedig arwyddocâd ehangach - sef y sail dystiolaeth gyfyngedig mewn perthynas ag amgylchiadau lleol, er enghraifft y gymuned Somaliaidd, y mae ei phriodweddau, ym marn yr adroddiad, ynghudd o fewn dosbarthiad cyffredinol eang data'r gymuned Ddu Affricanaidd.

3.39 Mae rhannau eraill hefyd o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn prif ffrydio cydraddoldeb yn eu gwaith.

"Adeiladu Cymunedau Gwledig Cynhwysol : Datblygu Cysylltiadau Effeithiol ar gyfer Ymgynghori gyda Phobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig mewn Ardaloedd Gwledig", Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru/Prifysgol Keele

Mae'r prosiect hwn, a gyllidir gan Raglen Datblygu Cymunedau Gwledig Ymddiriedolaeth Carnegie a'r Gronfa Loteri Fawr, yn ceisio archwilio a gwerthuso technegau ymgynghori a ddefnyddir gan gyrrff cyhoeddus ar gyfer cysylltu â theuluoedd du a lleiafrifoedd ethnig sy'n "anodd eu cyrraedd" neu'n "ymylol" mewn ardaloedd gwledig yn y Gogledd. Mae'r ymchwil yn anelu at adeiladu cynhwysiant i gymunedau gwledig, trwy ddealltwriaeth o arferion mewn cyrrff cyhoeddus prif ffrwd yn y Gogledd a thrwy ddatblygu dealltwriaeth o barodrwydd a gallu teuluoedd du a lleiafrifoedd ethnig i ymuno mewn deialog ynghylch eu hanghenion iechyd a lles.

3.40 Dychwelaf at y momentwm yn y symudiad tuag at brif ffrydio cynyddol yn adrannau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r hyn y gall ei olygu i'r defnydd o'r Gronfa yn y dyfodol, mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

4. YMDRINIAETH GYFFREDINOL O FATERION SY’N YMWNEUD Â DEFNYDD Y GRONFA YN Y DYFODOL

- 4.1 Fel gyda holl gyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae’r ffordd y caiff cyllideb ei defnyddio yn arf, megis trosol, i gyfrannu tuag at gyrraedd canlyniadau a ddeisyfir. Felly, y prif ofyniad strategol yw y dylid defnyddio’r Gronfa (waeth pa mor fawr neu fach) i gael hynny ag sy’n bosibl o effaith wrth helpu cyrraedd canlyniadau sy’n gyson â phrif gyfeiriadau cyffredinol symudiad Llywodraeth Cynulliad Cymru – yn enwedig ym maes cydraddoldeb, ond hefyd yn fwy cyffredinol.
- 4.2 Wrth ystyried y defnydd gorau o gyllid y Gronfa yn y dyfodol, dylid cadw mewn cof y nodweddion presennol canlynol o dirlun y Strategaeth:-
- a) Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb.
 - b) Prif strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru. “Cymru: Gwlad Well” oedd honno i Lywodraeth 2003-2007. O 2007 ymlaen y strategaeth sy’n cael ei datblygu i weithredu rhaglen “Cymru’n Un” fydd hon..
 - c) Creu’r Cysylltiadau.
 - d) Polisi Sector Gwirfoddol.
 - e) Tryloywder ac atebolrwydd (i’w gweithredu gyda chymesuredd) yn y defnydd o gronfeydd y Cynulliad.
- 4.3 Mae gan UCAS ran mewn cymryd golwg ehangach hefyd fel y caiff materion rhagolygol yn ogystal eu cydnabod ymhlith defnyddiau posibl o gyllid y Gronfa, er enghraifft yn erbyn cefndir:
- a. amlygrwydd cynyddol Hawliau Dynol fel cyd-destun cyffredinol y bydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn debygol o weddu fwyfwy o’i fewn;
 - b. y symudiad oddi wrth ddull gweithredu cydraddoldeb a oedd bron yn gyfan gwbl seiliedig ar un maes, fel yr oedd ar gychwyn y Gronfa yn 2000, tuag at ddull mwy cydlynol, y gellir ystyried creu’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel enghraifft ohono.
- 4.4 Nid yw’r cylch gorchwyl yn fy nghyfarwyddo i ystyried maint y Gronfa (na’n wir a ddylai barhau mewn bodolaeth) fel pwnc trafod. Fodd bynnag, cymeraf fel rhagdybiaeth (i ddibenion fy ngwaith) gronfa sy’n parhau ar y lefelau presennol yn fras. Ond byddai prif egwyddorion yr argymhellion a welir ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn yn gymwys beth bynnag fo maint y gyllideb, o fewn rheswm.
- 4.5 Y Gronfa yw’r **unig** gyllideb “rhaglen” mae UCAS yn gyfrifol amdani. Hynny yw, dyma’r unig un o gyllidebau UCAS y gellir ei gwario ar nwyddau a gwasanaethau a brynir o ffynhonnau **y tu allan** i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly dylai’r defnydd ohoni ar unrhyw adeg adlewyrchu’r weledigaeth, y strategaeth/au a blaenoriaethau a ddilynir gan UCAS. Felly mae cyfeiriad cyffredinol UCAS yn allweddol i unrhyw ystyriaeth o ddewisiadau ar gyfer y modd y defnyddir cyllideb y Gronfa yn y dyfodol.

Cyfeiriad Cyffredinol UCAS

- 4.6 Mae UCAS, yn y misoedd diwethaf, wedi bod yn datblygu datganiad o'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb
- “- Cymru o safon fyd-eang, lle dethlir cyfoeth ein diwylliant.
 - Cymru fodern, gydag economi lewyrchus lle mae cyfraniad unigryw pob unigolyn yn cael ei alluogi a'i werthfawrogi.
 - Cymru gynhwysol, lle mae rhyddid, dewis, urddas a pharch yn gonglfeini'n ffordd ni o fyw.”
- 4.7 Cyd-destun strategol y weledigaeth yw cytundeb “Cymru'n Un”. Mae'r weledigaeth yn cadarnhau'r ffordd y mae UCAS yn mynd o gwmpas ei waith, gan gynnwys cydnabyddiaeth y caiff agweddau lluosog o anfantais posibl eu hadlewyrchu mewn nifer fawr o unigolion amrywiol ledled Cymru - felly ni fydd edrych ar gydraddoldeb mewn meysydd ynysig o oedran, hil, anabledd, rhyw, ffydd a chrefydd, hunaniaeth rywiol a chyfeiriadedd rhywiol yn darparu canlyniadau sy'n diwallu anghenion pobl.
- 4.8 Mae gweledigaeth UCAS yn braenaru'r tir ar gyfer ei waith gyda holl Adrannau Llywodraeth y Cynulliad i greu'r Cynllun Cydraddoldeb Unigol. Bydd hwn yn pennu ymrwymadau lefel uchel Llywodraeth y Cynulliad dros y 3 blynedd nesaf. Bydd y rhain yn cysylltu â nifer cymharol fychan o ganlyniadau allweddol yn rhai o'r meysydd thematig a nodir yn 'Cymru'n Un'. Er mwyn cyrraedd canlyniadau seiliedig ar themâu o'r fath, mae'n dilyn y bydd angen gweithio ar draws adrannau a monitro a gwerthuso cynnydd.

Gwersi o leoedd eraill?

- 4.9 Gall gwybod sut yr ymdrinnir â materion cydraddoldeb strategol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gynnig rhai pwyntiau defnyddiol o gymhariaeth fel gwybodaeth ar gyfer ystyried y ffordd ymlaen yng Nghymru.

Yr Alban

- 4.10 Mae gan yr uned gydraddoldeb ganolog o fewn Gweithrediaeth yr Alban gyllideb rhaglen o tua £16m y flwyddyn. Defnyddir hon i gefnogi rhai mudiadau, ee'r Scottish Women's Convention, a hefyd ar gyfer prosiectau. Mae maes unigol mwyaf yw rhwystro trais yn erbyn menywod sy'n cyfrif am tua hanner y gyllideb, gan gynnwys tua £3 miliwn i 40 o fudiadau, cynhadledd argyfwng trais, Scottish Women's Aid. Mae £3 miliwn yn mynd i awdurdodau lleol. Defnyddir cyllid arall o'r uned i gefnogi gwaith gyda ffoaduriaid yn yr Alban.
- 4.11 O gymharu â Chymru, golyga hyn fod y gyllideb ganolog hon yn ariannu nifer o weithgareddau a gaiff, os cânt eu hariannu yng Nghymru, eu hariannu gan adrannau polisi. Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch beth a ddylai fod yn gyfrifoldeb unedau canolog ar y naill law ac adrannau polisi ar y llaw arall, a byddaf yn dychwelyd at hyn yn adrannau 5 a 6.

Gogledd Iwerddon

- 4.12 Yng Ngogledd Iwerddon, caiff cyllidebau canolog i gefnogi materion cydraddoldeb eu rhannu rhwng nifer o unedau. Cyllideb gyfyngedig iawn o tua £25,000 y flwyddyn sydd gan y tîm Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol, a ddefnyddir i gefnogi digwyddiadau, cyhoeddiadau a chodi ymwybyddiaeth. Yn ogystal, ar ddiwedd 2006 penderfynwyd

darparu £100,000 y flwyddyn o gyllid am 2 flwyddyn i'r Glymblaid ar Gyfeiriadedd Rhywiol, mudiad a oedd newydd gael ei greu. Roedd hyn i raddau helaeth iawn gyda'r nod o gefnogi creu cynhwysedd cymdeithasol yn y maes hwn.

4.13 Y Gronfa Hil.....[i ddilyn wedi i gysylltiadau gael eu gwneud]

5. YSTYRIAETH O FATERION SY’N BERTHNASOL I DDEFNYDD O’R GRONFA YN Y DYFODOL

- 5.1 Golyga Strategaeth Brif Ffrydio Cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad y dylai pob Adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru (a sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy’n derbyn cefnogaeth gan bolisiau Llywodraeth y Cynulliad trwy ariannu neu benderfyniadau) integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb o gamau cyntaf pob gweithgaredd strategol a pharhau hynny wrth ddatblygu polisiau, eu gweithredu, cyflawni, monitro, gwerthuso a’u hadolygu.
- 5.2 Allan o wariant cyhoeddus o c£14 biliwn y flwyddyn (o gymharu â llai na £1m yn y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb), mae’r gyfran helaethaf o gyllid Llywodraeth y Cynulliad sy’n berthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth felly’n rhan annatod o weithgareddau ar draws y sector cyhoeddus, mewn dwy ffordd gyffredinol:
- (i) prif ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb i ddatblygu a gweithredu polisiau mewn ffyrdd sy’n ei gwneud hi’n amhosibl cyfrifo faint o ymdrech a gwariant a neilltuir **yn benodol** i gefnogi amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn aml ni fydd unrhyw gost ychwanegol i integreiddio materion cydraddoldeb o’r cychwyn, hyd yn oed yn ddamcaniaethol; a
 - (ii) bydd prif ffrydio’n arwain (mewn rhai achosion) at weithgareddau a chyllidebau’n cael eu defnyddio mewn ffyrdd canfyddadwy i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth (ee’r penderfyniad y dylai’r Gyfarwyddiaeth Dai ariannu Tai Pawb, sefydliad i helpu teuluoedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig ym maes tai). Weithiau bydd gweithgareddau penodol sy’n llifo o brif ffrydio cydraddoldeb yn fwy amlwg yng nghynllun (a chostau’r) modd y cesglir ac y dadansoddir data (i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygu polisi a monitro’i weithredu) nag yng nghostau ychwanegol darparu gwasanaeth.
- 5.3 Yr hyn y dylai’r amcan cyffredinol fod felly yw mwyhau i’r eithaf y gwerth a ychwanegir gan ddefnydd o’r Gronfa i fynd i’r afael â meysydd sy’n debygol o helpu’n sylweddol yn y daith tuag at fewnblannu’r Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb **ond** nad yw adrannau polisi unigol (ar hyn o bryd) yn debyg o’u hariannu (neu ariannu’n llawn, neu ariannu’n ddi-oed), oherwydd:
- (i) nad ydynt yn cydweddu ag unlle arall;
 - (ii) eu bod mor eang nad oes unrhyw un Adran amlwg yn arwain;
 - (iii) efallai (o leiaf ar hyn o bryd) fod angen cymhelliad fel arf i Adrannau ymuno , ee dyrchafu’r blaenoriaethau a roddir i weithgaredd a gynllunnir, neu ei wella, er mwyn gwella trosglwyddedd profiad, cyfarpar etc.
- 5.4 Mewn geiriau eraill, mae’r Gronfa’n arf i helpu Llywodraeth y Cynulliad ac eraill symud ymhellach ac yn gyflymach ac yn well i gyfeiriad Prif Ffrydio. Yr hyn na ddylai **fyth** ddigwydd yw bod cyllid o’r Gronfa’n cael ei geisio a’i gynnig oherwydd diffygion canfyddedig mewn cyllidebau adrannau eraill, neu adrannau eraill yn gosod blaenoriaeth amhriodol o isel ar wariant perthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth sy’n ymwneud â pholisiau a strategaethau o fewn eu meysydd.

- 5.5 Yr hyn ddylai defnydd UCAS o'r Gronfa fod (ac yn gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf, dyma a fu'n bennaf) yw ychwanegu gwerth at yr hyn y mae (neu y bydd) adrannau polisi Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud.
- 5.6 Y tu hwnt i'r ystyriaeth gyffredinol hon, daw amryw o faterion mwy penodol i'r amlwg:
- y pwyslais a roddir i faes wrth ystyried dyraniadau i'w gwneud o'r Gronfa;
 - cyllido craidd/cyllido prosiectau;
 - aml-flwyddyn yn erbyn blwyddyn (neu ddigwyddiad) unigol;
 - polisi cyllido partneriaeth – ee lle gallai'r Gronfa ddarparu llai na 100% o'r cyllid a/neu lle mae'n ffynhonnell arian sefydlu;
 - y cydbwysedd i'w daro rhwng, yn gyntaf, glustnodi'n rhagweithiol feysydd ar gyfer buddsoddi sy'n adlewyrchu blaenoriaethau UCAS ar unrhyw adeg; ac yn ail, cael y cynhwysedd i allu ymateb i awgrymiadau/cyfleoedd addawol am ddefnydd o rywfaint o gyllid y Gronfa;
 - y graddau y gellir defnyddio'r Gronfa i gefnogi prosiectau mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 5.7 Caiff y materion hyn eu hystyried ymhellach a gwneir argymhellion arnynt yn adran 6.

Dau Fater Arall sy'n werth eu hystyried

- 5.8 Mae dau fater arall (sy'n gysylltiedig mewn rhai ffyrdd â materion a nodwyd eisoes uchod a hyd yn oed â'i gilydd) hefyd yn fy nharo fel rhai sy'n teilyngu rhywfaint o ystyriaeth. Ystyriaf isod
- Nad oes cyfeiriad clir at y Gronfa yn y Cwmpas drafft a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol.
 - Costau cyfle penderfyniadau'r Gronfa.

Dim cyfeiriad clir at y Gronfa yn y Cwmpas drafft a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol

- 5.9 Mae tryloywder y Gronfa'n fater pwysig a ystyrir mewn man arall ac mewn mwy o fanylder yn yr adroddiad hwn. Un agwedd fanwl yw geiriad y cwmpas y cymeradwyir y gwariant hwn o'i fewn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ar gyfer 2007-08, y Cwmpas y mae'r Gronfa'n sefyll o'i fewn a roddwyd i'r Cynulliad oedd:

| Cwmpasau gwariant a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (ac eithrio adnoddau cronrus) | |
|--|-----------------|
| Colofn 1 <i>Gwasanaethau a Dibenion</i> | Colofn 2 |
| Gwasanaethau Gweinidogol Eraill | Swm £000 |
| I'w defnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; cynllunio gofodol; | |

| | |
|--|-------|
| cefnogaeth i'r Uned Penodiadau Cyhoeddus; ymchwil ystadegol; yr Ymchwiliad E-Coli; grantiau i gyrff sector cyhoeddus at gyflawni enillion effeithlonrwydd; ariannu Gwerth Cymru a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru; a thaliadau i gefnogi datblygiadau a chysylltiadau tramor; grantiau a chefnogaeth ariannol i sefydliadau sector cyhoeddus eraill ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 7,427 |
|--|-------|

- 5.10 Gellir gweld nad yw Cydraddoldeb yn cael ei grybwyll yn benodol yn y cwmpas hwn, er y cyfeiriwyd yn benodol at o leiaf 3 eitem yn yr un cwmpas a oedd â chyllidebau **llai**, sef Symud y Cynllun Gofodol Ymlaen; yr Uned Penodiadau Cyhoeddus; a'r Ymchwiliad E-Coli.

Costau cyfle penderfyniadau'r Gronfa

- 5.11 Mewn egwyddor, gall fod costau cyfle (sef fod y cyfanswm gwerth a ychwanegwyd gan y defnydd o gyllideb sefydlog gyfan tuag at gyflawni canlyniadau a ddeisyfir yn is na'r hyn y gallai fod) wedi codi o brosesau penderfynu yn y gorffennol a rhai presennol a oedd yn ymwneud â defnydd o'r Gronfa. Mae nifer cymharol fach o geisiadau cadarn am gyllid y Gronfa a gafodd eu gwrthod am yr unig reswm nad oedd digon o arian yng nghyllideb y Gronfa. Fe wnaeth rhai o'r rheini na chafodd eu cefnogi fethu â denu cyllid y Gronfa oherwydd pryderon ynghylch cynaliadwyedd, ddichonoldeb neu lywodraethiant y cais (sy'n golygu, hyd yn oed petai cyllideb wedi bod ar gael, i ddyfarniad gael ei wneud nad oedd cais yn cyrraedd y safonau sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn gymwys am gyllid).
- 5.12 Weithiau (yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf) bydd cysylltiadau cychwynnol a wnaed ag UCAS wedi cael eu hailgyfeirio i rannau eraill o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â'r Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb (hynny yw, os yw gweithgaredd a allai fod yn ymgeisydd am gyllid y Gronfa'n amlwg o fewn maes diddordeb un o adrannau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach nag UCAS, lle'r adran honno yw arwain wrth ystyried a yw cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn briodol ac, mewn termau ymarferol, yn bosibl).
- 5.13 Felly gall costau cyfle'r modd y cafodd y Gronfa ei gwario hyd yma o ran y dewisiadau a wnaed yn y ffordd y cafodd y gyllideb ei defnyddio rhwng dewisiadau a oedd yn **hysbys** i UCAS a'i rhagflaenydd, yr Uned Polisi Cydraddoldeb (UPC), fod yn gyfyngedig o ran maint. Mwy tebygol yw'r tebygolrwydd fod proffil isel a, hyd yn ddiweddar, y defnydd adweithiol o'r Gronfa wedi:
- a) cyfyngu ar yr ystod o ddewisiadau o flaen UCAS (a'r UPC o'i flaen) i'w hystyried;
 - b) oherwydd y dull cymharol ad hoc o ymdrin â phob cais i raddau helaeth ar wahân i ystyriaethau o geisiadau eraill, cyfyngedig oedd y cyfle i gysoni defnydd o'r Gronfa gyda'r weledigaeth a'r blaenoriaethau sy'n codi o'r Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb.
- 5.14 Mae UCAS wedi bod yn cynyddu'r graddau y mae'n rhagweithiol yn y defnydd o'r Gronfa ers peth amser bellach. Mae cymhariaeth o'r amrywiaeth o brosiectau a gefnogir gan y Gronfa yn 2006-07 a 2007-08 yn datgelu hyn (rhestr o'r holl brosiectau yn y tablau ym mharagraffau 2.9 a 2.10). Er enghraifft, mae'r cynnydd yn y swm o adnodd a ddefnyddir i gefnogi secondiadau, ymchwil, datblygu a gweithgareddau ymgysylltu'n ganlyniad penderfyniad gan UCAS fod tasgau penodol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau yn ei weledigaeth (ee gwaith sy'n ymwneud â chyflawni lansiad llwyddiannus Cynllun Cydraddoldeb Unigol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008).
- 5.15 Fodd bynnag, mae'n dal rywfaint o ffordd i fynd i ymgodymu â'r ddau brif rwystr cyffredinol (yn y gorffennol a'r presennol) i leihau i'r eithaf gostau cyfle yn y defnydd o'r Gronfa - proffil isel (a hyd yn oed lefel tryloywder) y Gronfa; a'r angen i

unioni'r Gronfa mewn ffordd fwy rhagweithiol a chlr â blaenoriaethau cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn unol â dull gweithredu'r Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb, a'r Cynllun Cydraddoldeb Unigol a ddatblygwyd yn fwy diweddar a chadarnhau'r strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Ymdrinnir ymhellach â'r ddau rwystr hyn yn adran 6 o'r adroddiad hwn.

6. DEWISIADAU AR GYFER Y DYFODOL

Materion y mae gofyn i'r dewisiadau ymdrin â hwy

- 6.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn gosod y prif faterion cyd-destunol yn gwyno gerbron ac wedyn – mewn mwy o fanylder – mae'n cyflwyno dewisiadau sy'n ymdrin â phob un o nifer o faterion y cred yr awdur fod angen ymdrin â hwy gan y rhai sy'n ymwneud â defnydd y gronfa yn y dyfodol.

Y cyd-destun – newid yn barhaus

- 6.2 Mae gofyn i fwriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer defnydd y Gronfa adlewyrchu ei farnau ar y materion cyd-destunol (a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn) sydd ag oblygiadau o ran y canlyniadau a geisir, megis:
- strategaeth trosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007-2011 a gaiff ei lansio'n fuan, sy'n ymgorffori cynnwys cytundeb "Cymru'n Un" y pleidiau sy'n llywodraethu.
 - y cyfeiriad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n symud tuag ato mewn cydraddoldeb, yn enwedig:
 - Prif Ffrydio
 - Y symudiad oddi wrth sefyllfa lle'r oedd y dull gweithredu strategol yn seiliedig i bob pwrpas ar faes unigol (neu hyd yn oed sawl maes)
 - y diffiniad a fynegwyd egluraf o swyddogaeth UCAS, sef yn bennaf darparu arweiniad, cefnogaeth a chyfeiriad ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r tu hwnt i'r tîm cefnogi wrth iddynt ddilyn yr agenda prif ffrydio ym mhob maes;
 - efallai'r pwyslais mwy ar hawliau dynol fel y cyd-destun y bydd cyfeiriad symudiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweddu o'i fewn;
 - creu a datblygu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD), y bydd UCAS yn chwarae rhan bwysig gydag ef wrth helpu creu perthynas waith gynhyrchiol rhwng CCHD a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan roi ystyriaeth i bwerau a chyfrifoldebau statudol y ddau.

Materion gweithredol o bwys

- 6.3 Mae nifer o faterion o bwys yn berthnasol i ba fath o ganlyniadau sy'n gyraeddadwy trwy ddefnyddio cyllid y Gronfa, yn enwedig:
- defnyddio cyfran fawr o'r cyllid yn rhagweithiol i gefnogi blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru;
 - pa fath penodol o weithgareddau y dylai'r Gronfa allu eu hariannu, a beth na ddylai ei ariannu'n arferol;
 - y cyfrannau o gyllido craidd (os o gwbl) yn erbyn pob math arall o gyllido (ee ariannu prosiectau);
 - y graddfeydd amser ar gyfer ariannu, gan gynnwys a ddylai fod cyfyngiad i'r nifer o flynyddoedd o gyllid craidd;
 - cynhwysedd ar gyfer adolygu'r math o gyrff, prosiectau etc a gefnogir;
 - dulliau gwahodd ac asesu ceisiadau;

- ystyriaethau cynaliadwyedd (ee y disgwyliad y bydd y rhai sy'n ceisio cyllid y Gronfa'n ceisio ffynonellau eraill o arian, neu'n bwriadu gwneud hynny – ac y byddant yn datgelu gwybodaeth am hynny i UCAS); a
- materion tryloywder yn gyffredinol.

Perthynas y defnydd o gyllid y Gronfa â blaenoriaethau UCAS

- 6.4 Pan grëwyd y Gronfa yn 2000 gyda £100,000 y flwyddyn o arian newydd, roedd ei dibenion (fel y disgrifiwyd yn adran 2) yn eglur i raddau helaeth. Roedd ei bodolaeth i raddau helaeth iawn, yn ei ychydig flynyddoedd cyntaf, ar gyfer helpu creu a chryfhau cynhwysedd cymunedol mewn perthynas ag ymdriniaeth o gydraddoldeb a ddiffinnid yn nhermau meysydd unigol. Ers hynny, mae tri datblygiad mawr perthnasol wedi digwydd:
- (i) mae maint y gyllideb wedi cynyddu fel ei bod sawl gwaith yn fwy;
 - (ii) mae ymdriniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi bod yn datblygu (a bydd yn parhau i ddatblygu). Mae prif ffrydio wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol fel cyfeiriad symudiad strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cydraddoldeb;
 - (iii) mae UCAS wedi bod yn dod yn fwy rhagweithiol yn ei defnydd o gyllideb y Gronfa nag oedd hi a'i rhagflaenydd (Yr Uned Polisi Cydraddoldeb) mewn blynyddoedd cynt.
- 6.5 Mae'r datblygiadau hyn yn awgrymu bod angen i agwedd UCAS tuag at y defnydd o'r Gronfa newid (ac yn wir mae wedi bod yn newid i ryw raddau). Yn ogystal mae rhannau cynharach o'r adroddiad hwn yn awgrymu fod defnydd o'r gyllideb hyd yma efallai â phroffil rhy isel ac yn rhy ad hoc ac (yn enwedig mewn rhai blynyddoedd cynharach) yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol wrth ddilyn strategaeth gydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r datblygiadau ac amgylchiadau hyn, y cam cyntaf sydd angen ei gymryd gyda'r Gronfa yw datblygu a chyhoeddi esboniad clir o'r hyn y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio'i gyflawni yn y flwyddyn sy'n dod gyda'r gyfran nas ymrwymwyd o'r Gronfa.
- 6.6 **Argymhelliad 1: Dylai UCAS bob blwyddyn gynghori Gweinidogion ar sut y dylai blaenoriaethau cyffredinol polisi am y flwyddyn sy'n dod gael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau ar sut i flaenoriaethu'r defnydd o gyllideb y Gronfa nas ymrwymwyd.** Bydd hyn yn galluogi i'r ystyriaeth (yn y cyngor gan UCAS ar y pecyn o weithgareddau i gael eu hariannu gan y Gronfa) o bob achos dros gyllid gael ei osod o fewn cyd-destun y graddau y mae'n cyfrannu at y blaenoriaethau mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Beth ddylai UCAS ei ariannu (ac na ddylai ei ariannu)?

- 6.7 Gan gadw mewn cof y disgrifiadau cynharach o'r Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb a'r hyn y mae'n ei olygu, ac o genhadaeth UCAS, ni ddaeth fy argymhelliad cyntaf yn sgil ystyried amrywiaeth o ddewisiadau, gan y credaf iddo'n hytrach lifo o rannau cynharach o'r adroddiad hwn, heb fawr o le am ddewisiadau eraill yn y cyd-destun y mae'r Gronfa'n bodoli o'i fewn.

- 6.8 Yn yr un modd, mae'n amlwg i mi na ddylid defnyddio'r Gronfa'n arferol i ariannu unrhyw weithgaredd sy'n amlwg yn gyfrifoldeb adran bolisi yn Llywodraeth y Cynulliad, neu'n fwy lleol sefydliad GIG, awdurdod lleol neu gwmni sector preifat. **Argymhelliad 2: Ni fydd y Gronfa ar gael yn arferol i ariannu unrhyw weithgaredd sy'n amlwg yn rhan o gyfrifoldeb Adrannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad.** Byddai peidio â chadarnhau bod hyn yn egwyddor sylfaenol o ran cyllid y Gronfa (fel y mae eisoes i raddau helaeth) yn tanseilio'r dull gweithredu Prif Ffrydio – sef fod cydraddoldeb (gan gynnwys ei ariannu) yn fusnes sylfaenol i bob Adran.
- 6.9 Os derbynnir argymhelliad 2, mae'n dal i fod amrywiaeth eang iawn o weithgareddau y gall y Gronfa eu hariannu (fel y mae hi eisoes i raddau) - yn amodol ar yr un pryd i ystyriaethau o briodoldeb a chysondeb. Credaf y gellir rhannu'r rhain, fel y gwna UCAS ar hyn o bryd, yn ddau gategori:
- cyfraniadau at gostau **craidd** cyrff Cymru gyfan o'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar un neu fwy o feysydd ar draws amrywiaeth o themâu (fel nad ydynt, fel Tai Pawb dyweder, yn gyfrifoldeb amlwg un adran bolisi – neu hyd yn oed bartneriaeth o 2 neu fwy – i'w hariannu). Y prif ganlyniadau a geisid yn yr achosion hyn fyddai creu, sicrhau parhad, neu wella'n gyffredinol gynhwysedd cymunedol gyda nod o gynyddu ansawdd ac efallai swm yr wybodaeth a chyngor sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad ac eraill a fydd yn cynorthwyo pawb yn y gwaith o Brif Ffrydio.
 - **prosiectau.** Unwaith eto, pe caent eu cyllido neu eu cyllido'n rhannol o'r gronfa, byddent fel arfer yn cael eu hariannu ar y sail nad oedd ffynhonnell arall o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Gallai'r prosiectau y gellir eu hariannu gynnwys: ymchwil; datblygu a darparu cyfarpar asesu; digwyddiadau dathlu arbennig, digwyddiadau codi ymwybyddiaeth etc (y cyfan ohonynt fel arfer o arwyddocâd i Gymru gyfan); digwyddiadau/cynadleddau rhwydweithio a chyfnewid arferion da; cynhyrchu a dosbarthu deunyddiau a chyhoeddiadau etc. Gan mai hon yw unig gyllid rhaglenni UCAS, ni welaf unrhyw reswm i orfodi unrhyw gyfyngiad ar y math o weithgaredd a gyllidir fel prosiect, yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn: rhaid bod ei ddefnydd ar gyfer helpu UCAS i gyflawni ei genhadaeth; rhaid iddo beidio â bod yn gostau craidd cudd; a rhaid iddo beidio â bod yn gostau cyfredol Llywodraeth y Cynulliad.
- 6.10 **Argymhelliad 3: Dylai UCAS barhau i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n cefnogi costau craidd a'r hyn sy'n cefnogi prosiectau wrth ddsbarthu ei wariant o'r Gronfa.**

Enw'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb

- 6.11 Y Gronfa yw **unig** gronfa rhaglenni UCAS. Roedd rhai o'r farn mai unig ddiben y Gronfa oedd fel ffynhonnell y gallai UCAS ddarparu grantiau ohoni i fudiadau, neu hyd yn oed i fudiadau gwirfoddol yn unig. Nid yw, ac ni fu, hyn yn wir, fel y dengys y tablau yn adran 2. Ar gyfer y dyfodol, rwyf o blaid newid yr enw "Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb". Mae'r enw presennol yn swnio i raddau helaeth fel cyllideb y gellid ei defnyddio'n llwyr ac yn unig ar gyfer ymateb i geisiadau oddi wrth gyrff gwirfoddol. Yn ddamcaniaethol, gwelaf ddau ddewis ar gyfer newid: newid enw'r Gronfa, neu greu dwy neu fwy o gyllidebau lle mae un ar hyn o bryd.

- 6.12 Nid wyf yn ffafrio creu dwy neu fwy o gyllidebau allan o gyllideb gymharol gyfyngedig. Byddai'n sicr o leihau'r hyblygrwydd a fyddai'n bosibl wrth ddefnyddio'r gyllideb lawn. Awgrymaf felly y dylid newid yr enw. **Argymhelliad 4: Fel rhan o unrhyw newidiadau i'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb sy'n deillio o ystyriaeth o'r adroddiad hwn, dylid newid enw'r gronfa i un sy'n dangos yn well mai dyma unig gyllideb UCAS, ac y gellir ei defnyddio mewn llawer o wahanol ffyrdd gan wahanol fathau o dderbynwyr (yn y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat) i gefnogi gwaith UCAS. Gallai enw megis "Cyllideb Strategol Cydraddoldeb" fod yn fwy addas, cyn belled ag y deellir o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r tu hwnt fod y gyllideb gymharol fach hon ar gyfer ei defnyddio fel arf bychan dros newid, yn hytrach nag i ariannu'r costau a allai ddeillio o integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb i ddatblygu a gweithredu polisi ar gyfer darpariaeth gwasanaethau prif ffrwd.**

Y cyfrannau o'r Gronfa a ddylai fynd at gostau craidd ac at brosiectau

- 6.13 Mynegwyd barnau gwahanol iawn ynghylch beth a ddylai ddigwydd yn y dyfodol ynghylch ariannu costau craidd rhai mudiadau gwirfoddol. Roedd pwyslais llethol y Gronfa ar y cychwyn (pan oedd yn llawer llai) ar gyllido craidd nifer gyfyngedig o fudiadau dethol. Hebddi, er enghraifft, mae'n annhebyg y byddai Stonewall Cymru na Chlymblaid Genedlaethol Menywod Cymru wedi gallu dod i fodolaeth a datblygu cymaint ag y maent wedi ei wneud.
- 6.14 Fodd bynnag, mae'r cefndir wedi newid yn amlwg ers creu'r Gronfa yn 2000. Bryd hynny roedd agwedd Llywodraeth y Cynulliad (a llawer un arall) at gydraddoldeb wedi ei dominyddu bron yn gyfan gwbl gan ymdriniaeth o gydraddoldeb a oedd yn seiliedig ar un maes, bron fel petai mewn llestr caeedig, o ran y swm cymharol gyfyngedig o weithio a dysgu ar y cyd ar draws meysydd. Ar ben hyn roedd gweithredoedd cyrff cyhoeddus wedi eu dominyddu hyd yn oed yn fwy nag yr oeddent ar ôl hynny gan yr angen i gydymffurfio â gofynion statudol seiliedig ar feysydd, yn hytrach na'r agenda mwy uchelgeisiol (a adlewyrchir yn rhannol mewn mwy o gyfrifoldebau statudol i gyflawni gwelliannau) sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfio tuag at fod yn rhagweithiol.
- 6.15 Ers 2000, mae cyllideb y Gronfa wedi codi o £100,000 cychwynnol o gyllid newydd i bron i £900,000 yn 2006-07. Gadewch inni felly ystyried manteision ac anfanteision y dewisiadau canlynol:
- (1) parhau'n fras fel ar hyn o bryd (gyda thua 35%-40% o'r Gronfa – tua £350,000 – yn mynd ar gostau craidd cyrff neu fudiadau);
 - (2) lleihau (haneru'n fras dyweder?) y gyfran sy'n mynd ar gostau craidd, dros y 2 neu 3 blynedd nesaf;
 - (3) rhoi'r gorau i ariannu costau craidd;
 - (4) cynyddu'r gyfran sy'n mynd at gostau craidd.

Dewis 1: Parhau gyda'r gyfran bresennol yn fras o'r Gronfa sy'n mynd ar gostau craidd

- 6.16 Byddai **manteision** mynd ati fel hyn yn cynnwys:
- (i) bod y cyrff sy'n derbyn yn gwybod bod ganddynt lefel sylfaenol benodol o

gyllid y gellid ei ddefnyddio fel sylfaen y gallant fynd ymlaen ohono i wneud ceisiadau (i UCAS ac eraill) am gyllid prosiectau;

- (ii) fod gan y corff hwnnw'r potensial i ddefnyddio'r Gronfa'n hyblyg heb gymaint o gyfeirio'n ôl at UCAS **ymlaen llaw** (fel y byddai'n ofynnol yn llawer mwy petaent yn defnyddio cyllid prosiectau y tu allan i'r maes y darparwyd ef ar ei gyfer).

6.17 Gallai'r **anfanteision** gynnwys:

- (i) llai o gymhelliant i'r derbynnydd godi arian o ffynonellau eraill, sy'n golygu y gall y corff fod yn rhy ddibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyfan y bydd neu y gall hynny ei olygu (ee byddai archwilio mwy manwl o'r gwaith craidd yn anochel os mai Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddai'r prif neu'r unig gyllidwr;
- (ii) perygl o lai o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a llai o gysylltiad â chyllidwyr eraill posibl, ee trwy daliadau aelodaeth); a'r
- (iii) tebygrwydd y bydd yn galetach ac yn arafach dros unrhyw gyfnod o amser penodol i UCAS ailgylchu cyllideb y Gronfa tuag at gefnogi'n fwy sylweddol ei flaenoriaethau am y flwyddyn (neu flynyddoedd).

Dewis 2: Lleihau, o tua hanner, y gyfran o'r Gronfa sy'n mynd ar gostau craidd

6.18 Byddai **manteision** hyn yn cynnwys:

- (i) cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau (tua £150,000 i £200,000 y flwyddyn ar lefelau presennol cyfanswm cyllideb y Gronfa) heb golli'r holl fanteision o gael rhywfaint o gyllid craidd (er enghraifft, byddai gweddill y cyllid yn dal i gefnogi swydd lawn-amser neu ran-amser yng nghraidd mudiad neu gorff);
- (ii) cynyddu'r cymhelliant i fudiadau/sefydliadau sy'n derbyn rhywfaint o gyllid craidd i geisio cyllid prosiectau o rywle arall (lle gallant gynnwys elfen o gostau craidd rheoli);
- (iii) cynyddu'r lefel o annibyniaeth sy'n mynd gyda lleihad ar ddibyniaeth ar UCAS am gyllid craidd;
- (iv) y pwyslais ar brosiectau'n hytrach na mudiadau'n debygol o gynyddu gwerth y canlyniadau a gyflawnir i amrywiaeth o gyllidwyr prosiectau (gan gynnwys gwahanol adrannau polisi o Lywodraeth Cynulliad Cymru), a chan gynnwys hefyd mae'n debyg gydweddu gwell rhwng y gweithgareddau a gyllidir ac amcanion y cyllidwr.

6.19 Byddai **anfanteision** yn cynnwys y perygl o golli gweithgareddau gwerthfawr os oedd y cyrff yn aflwyddiannus wrth geisio sicrhau cynnydd digonol mewn cyllid prosiectau oddi wrth sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ac na ellid mwyach gadw na recriwtio staff o ansawdd da.

Dewis 3: Rhoi'r gorau i ariannu costau craidd

6.20 Byddai'r **manteision** yn cynnwys gwireddu'r manteision a nodwyd ar gyfer dewis 2 i raddau helaethach.

6.21 Gallai'r **anfanteision** gynnwys:

- (i) mwy o ansicrwydd ynghylch sefydlogrwydd lefelau ariannu yn y dyfodol a allai arwain at staff allweddol yn gadael ar ôl ymrwymadau cymharol fyr am gyflogaeth fwy sicr;
- (ii) sefydliad yn colli adnodd parhaol canolog sydd ar gael i archwilio a llunio ceisiadau am arian prosiectau oddi wrth ffynonellau cyllid o'r sector cyhoeddus ac annibynnol;
- (iii) colli gallu i ysgogi creu sefydliad newydd a'i gynnal am ei 2 neu 3 blynedd gyntaf, dyweder.

Dewis 4: Cynyddu'r swm sy'n mynd ar gostau craidd mewn termau absoliwt (ac oni fo cyfanswm cyllideb y Gronfa'n cael ei chynyddu'n sylweddol, fel cyfran o'r Gronfa hefyd)

6.22 Byddai'r **manteision** yn cynnwys llai o amser rheoli'r corff a gyllidir yn gorfod cael ei ddefnyddio ar chwilio am arian prosiectau.

6.23 Byddai'r **anfanteision** yn cynnwys:

- (i) byddai'n anoddach gwerthuso'r gwerth a ychwanegwyd;
- (ii) lleihad mewn cymhelliant i geisio cyllid prosiectau o ystod eang o ffynonellau, a cholli annibyniaeth (gwirioneddol neu ganfyddedig) y sefydliad oddi wrth UCAS.

Casgliad ar y rhaniad craidd/prosiectau

6.24 Yn wyneb y cynnydd yng nghyfanswm y gyllideb a datblygiad cyd-destun polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru y mae'r cyllid hwn yn deillio ohono, rwyf o blaid lleihau'n sylweddol y gyfran o'r Gronfa sy'n mynd yn uniongyrchol tuag at gefnogi costau craidd. **Argymhellid 5: Dros y 2-3 blynedd nesaf, dylai UCAS leihau'r swm o'r Gronfa sy'n mynd ar gefnogi costau craidd cyrff o tua 50%.** Byddai hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i UCAS ei gwneud hi'n glir i'r holl dderbynwyr presennol eu bod yn debygol o brofi toriad rhannol neu gyfan gwbl yn y ffurf hon o gefnogaeth dros y tymor canolig i'r tymor hir. Byddai angen i UCAS drafod ei ddisgwyliadau diwygiedig oddi wrth y rhai y byddai eu cyllidebau wedi eu lleihau.

Denu sylw at gyllid y Gronfa a thryloywder yn gyffredinol

6.25 Mae'r Gronfa wedi bod yn ffynhonnell gyllid ac iddi broffil cymharol isel ers ei dechreuad. Mae hyn yn ddealladwy i ryw raddau. Swm cyfyngedig iawn o arian sydd ganddi (mewn cymhariaeth â chyfanswm cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru) ac roedd barn weddol glir ar y dechrau ynghylch pa gyrff y dylid rhoi iddynt. Fodd bynnag, yn ogystal â'r ffaith fod y gyllideb wedi tyfu, nid yw'r dibenion y bwriedir hi ar eu cyfer mor eglur. Pe derbynnid argymhellion 2 a 3, byddai'n dal i fod amrywiaeth anferth o wahanol ffyrdd y gellid gwario'r gyllideb hon (unig gyllideb UCAS), cyn belled â bod ei defnydd yn cefnogi amcanion UCAS.

6.26 Darganfûm nad oedd neb o'r rhai a gyfarfûm (o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru

yn ogystal â'r tu hwnt) â gwybodaeth glir ynghylch cyfanswm maint y Gronfa, ar beth y defnyddid hi - nac ar beth y gellid ei defnyddio. Nid oes unrhyw gyfeiriad ati yn yr adran ariannu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, er enghraifft. Mae hon yn rhestru amrywiaeth helaeth o ffynonellau ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ei isrannu yn ôl maes pwnc.

- 6.27 **Argymhelliad 6: Dylai UCAS godi proffil y Gronfa.** Mae angen i'r dulliau a fabwysiedir daro cydbwysedd rhwng cael gwybodaeth fwy hygyrch a chlir yng ngolwg y cyhoedd heb godi disgwyliadau afrealistig neu iddi gael ei gweld yn unig fel pot o arian y gwahoddir pawb i wneud ceisiadau ohono. Gallai ailenwi'r Gronfa helpu yn hyn o beth. Gellid ychwanegu drafftiau amdani at wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ei gwneud yn glir nad yw hi fel arfer ar gael ar gyfer cefnogi gweithgareddau sy'n amlwg o fewn cylch gwaith adran bolisi. Gallai fod cyfle arall i godi proffil y Gronfa mewn ffordd addas o fewn y Strategaeth Gymunedol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gydraddoldeb Unigol.
- 6.28 Gallai un ffordd neilltuol o godi'r proffil mewn ffordd a allai helpu darpar ymgeiswyr a phartneriaid UCAS adeiladu ar argymhelliad 1 (sef, y dylai blaenoriaethau cyffredinol UCAS am bob blwyddyn sy'n dod "yrru" ei flaenoriaethau yn y cyngor a rydd i Weinidogion ar ddefnyddio'r Gronfa) trwy ddatblygu cam cyn yr hyn a ragwelir yno fel yn yr argymhelliad canlynol. **Argymhelliad 7: Dylai UCAS gytuno gyda'r Gweinidog (ar ôl ymgynghori gydag adrannau polisi) ddisgrifiad byr o beth fydd y blaenoriaethau ariannu yn y flwyddyn sy'n dod ar gyfer y Gronfa. Dylai hyn wedyn fod ar gael yn gyhoeddus** - fel y gall pawb o'r rhai gyda diddordeb posibl yng nghyllid y Gronfa weld beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ei defnydd mewn unrhyw gyfnod o amser.
- 6.29 Gallai ffyrdd eraill o allu codi ychydig ar broffil y Gronfa gynnwys ymarferiad ymgynghori â'r cyhoedd (gan ddefnyddio amryw o ffyrdd) ar benderfyniadau'r Gweinidog/UCAS mewn ymateb i'r adroddiad hwn, fel y trafodir ymhellach fel rhan o'r ffordd ymlaen ar ddiwedd yr adran hon.
- 6.30 Esboniodd Adran 5 nad oes unrhyw gyfeiriad penodol yng nghwmpas y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Gweinidogol Eraill at wario strategol ar gydraddoldeb, sef, y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb (sy'n cynrychioli dros 10% o'r dibenion o fewn y cwmpas hwnnw). Nid yw hyn mwyach yn adlewyrchu'n ddigonol yr arwyddocâd sydd i'r gyllideb hon bellach. **Argymhelliad 8: Dylai UCAS drafod gyda'r Adran Gyllid, ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol, aileiriad o'r Cwmpas y mae cyllideb y Gronfa o'i mewn, sy'n cyfeirio'n benodol at gydraddoldeb.** Dylai'r cyfeiriad gyfeirio at rywbeth ar hyd y llinellau "cydraddoldeb strategol" er mwyn peidio â thanseilio'r safle sy'n bennaf ar gyfer y Cwmpasau eraill (sef y rhai y cynhwysir cyllidebau adrannau polisi o'u mewn) y mae gofyn iddarparu ar gyfer gwariant sydd ei angen i gefnogi gweithgareddau'n ymwneud â chydaddoldeb a'i brif ffrydio.

Graddfeydd Amser ar gyfer ariannu

- 6.31 Mae rhai rhannau cynharach o'r adran hon yn awgrymu angen a welaf ar i UCAS fod yn gallu (dros raddfa amser resymol) newid cydbwysedd yr hyn y mae'r Gronfa'n ei ariannu bob blwyddyn - sy'n dod â ni at fanteision ac anfanteision ariannu aml-flwyddyn. Ar y naill law mae rhai ffynonellau ariannu (ee'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol) wedi ffafrio ariannu am uchafswm o 12 mis, sy'n darparu llawer mwy o hyblygrwydd i gymryd cyfeiriadau newydd yn y defnydd o'r cyllid bob blwyddyn. Ar

y llaw arall, gall cyllid un flwyddyn fod yn sylfaen wan ar gyfer cyflogi staff (yn enwedig staff o ansawdd dda) - a chaiff llawer o arian y Gronfa ei wario ar gostau staff. Lle bo rhannau eraill o Lywodraeth Cynulliad Cymru'n cyfrannu at gostau craidd mudiadau gwirfoddol, gwnânt hynny'n aml ar sail cytundebau 2 neu 3 blynedd.

- 6.32 **Argymhelliad 9: Dylai UCAS gael yr hyblygrwydd i gefnogi cyrff gwirfoddol y mae'n eu hariannu ar sail aml-flwyddyn (hyd at 3 blynedd gydag amodau lleihau/diweddu cyllid yn cael eu gweithredu fel arfer mewn achosion o danberfformio, a dim rhagdybiaeth o gyllid y tu hwnt i 3 blynedd) lle credir gan UCAS ei fod yn cynnig gwell gwerth am arian ac effeithiolrwydd etc wrth gyfrannu at ganlyniadau a ddeisyfir na gyda chyllid un flwyddyn.**

Y Broses o wneud ceisiadau

- 6.33 Yn wahanol i ffynonellau ariannu mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cynulliad Cymru, nid oes ar hyn o bryd unrhyw ffurflen gais safonol ar gael i ymgeisydd am arian o'r Gronfa. Er y dylid barnu pob cais ar ei rinweddau, byddai'n ddefnyddiol o safbwynt tryloywder a gweinyddu da petai UCAS yn datblygu profforma cymharol fyr i'w defnyddio gan ymgeiswyr.

- 6.34 **Argymhelliad 10: Dylai'r Gronfa ddatblygu ffurflen gais safonol ar brofforma, cynnal peilot ohoni a'i chyhoeddi ar y wefan**

Trylwyredd wrth asesu ceisiadau a monitro a gwerthuso gweithgareddau a ariannir

- 6.35 Mae derbynwyr arian o'r Gronfa, a rhai yn UCAS ei hun, o'r farn had yw lefel y trylwyredd wrth asesu ceisiadau, ac wedyn monitro a gwerthuso gweithgareddau a lwyddodd i dderbyn arian, yn gymesur bob amser â'r lefel o risgiau sy'n gysylltiedig. Mae angen i'r trylwyredd wrth fonitro defnydd o'r Gronfa fod yn gymesur â ffactorau megis maint y grant, y canran y mae'n ei gynrychioli o gyfanswm cyllideb y prosiect etc.

- 6.36 Mae'r angen am drylwyredd wrth asesu'r defnydd o gyllid craidd yn fwy fyth, yn wyneb y ffaith fod llawer mwy o ffynonellau eraill heblaw Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ariannu prosiectau.

Argymhelliad 11: Dylai UCAS geisio gweithredu'r lefel berthnasol o drylwyredd, monitro a gwerthuso gyda'i grantiau.

- 6.37 Gallai ymdriniaeth ysgafnach fod yn briodol gyda grantiau llai, is o ran risg etc o gymharu weithiau â mwy o drylwyredd wrth gynlluniau ariannu mwy dros dymor hirach, yn arbennig cyllido craidd, ac yn enwedig ymestyn cyllido craidd.

Rhybudd ymlaen llaw o newidiadau posibl

- 6.38 Os caiff yr argymhellion yn yr adroddiad hwn eu derbyn i raddau helaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai a allai gynyddu nifer ac amrywiaeth y cyrff a phrosiectau a gefnogir dros y 2-4 blynedd nesaf, bydd angen rhybuddion digonol o newidiadau mewn polisi ar beth fydd y blaenoriaethau ar gyfer ariannu mewn cyfnodau o amser yn y dyfodol, gan mai canlyniad symud mwy o arian i feysydd newydd sy'n cefnogi blaenoriaethau UCAS fydd y tebygrwydd y bydd rhai derbynwyr presennol yn colli, neu'n colli'n rhannol, dderbyn arian o'r Gronfa. Bydd ar gyrff o'r fath angen rhybudd

rhesymol i addasu.

- 6.39 **Argymhelliad 12: Dylai cynigion am newidiadau cyfeiriad sylweddol yn y defnydd o'r Gronfa sy'n debygol o arwain at golled sylweddol mewn cyllid i rai cyrff (yn enwedig mewn perthynas â chyllid craidd) fod yn destun gwybodaeth ymlaen llaw o tua 12 mis, os yn bosibl.** Gallai hyn fod yn ddefnyddiol hyd yn oed pan na fo penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud ar unrhyw newid arfaethedig yng nghydbwysedd defnydd y Gronfa.

Mwyhau i'r eithaf y gwerth a ychwanegwyd trwy waith a gefnogwyd gan y Gronfa a gwaith perthnasol nas cefnogwyd ganddi

- 6.40 Os nad yw cyllidwyr eraill a phartneriaid posibl (o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd, GIG, Llywodraeth Leol etc) yn ymwybodol ac yn eglur eu dealltwriaeth o beth y defnyddir y Gronfa ar ei gyfer, a pha gynigion allai fod ar gyfer ei defnyddio yn y dyfodol, bydd yn amhosibl mwyhau i'r eithaf y gwerth a ychwanegwyd gan adnoddau'r holl gyllidwyr ac osgoi dyblygu etc.

- 6.41 **Argymhelliad 13: Wrth gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch y Gronfa, dylai UCAS gadw'n arbennig mewn cof yr angen i gyfnewid gwybodaeth gyda chyllidwyr eraill.**

- 6.42 Yn ogystal, bydd allbynnau o brosiectau a ariannwyd gan y Gronfa'n aml o werth posibl wrth gyfrannu at ganlyniadau a ddeisyfir mewn meysydd nas rhagwelwyd yn y cais i'r Gronfa nac yn y penderfyniad i ariannu. Mae hyn hefyd yn awgrymu bod angen gwneud yr wybodaeth sydd ar gael yn fwy hygyrch i randdeiliaid ynghylch beth a wneir gyda chyfraniadau'r Gronfa, er y dylid pwysleisio y caiff nifer sylweddol o brosiectau'r Gronfa eu cefnogi gyda golwg ar y posibilrwydd o'r gallu i drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd neu a ddatblygwyd.

Casgliad – a'r Ffordd Ymlaen

- 6.43 O ran yr her gyffredinol o wireddu Strategaeth Brif Ffrydio Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru a gweledigaeth UCAS, bydd newidiadau fel y rhai a argymhellir yma'n sicrhau y bydd, wrth symud ymlaen, y gwerth a ychwanegir at gyflymder ac ansawdd taith brif ffrydio gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy ddefnyddio'r arf cymharol ddistadl a elwir ar hyn o bryd y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, yn cynyddu.
- 6.44 Pan fo UCAS a'r Gweinidog Cydraddoldeb wedi ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac wedi ffurfio eu cynigion ar gyfer newid, awgrymaf eu bod yn cynnwys nifer o gamau yn y broses sy'n arwain at unrhyw newidiadau yn y defnydd o'r Gronfa, er mwyn tanlinellu'r hyn yw (ac nad yw) diben y ffynhonnell hon o gyllid; ennill perchnogaeth ehangach o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru o beth y mae prif ffrydio'n ei olygu mewn termau ymarferol, gan gynnwys datblygu polisi ac ariannu; ceisio mewnbwn y rhai'r tu allan ac o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn gwneud penderfyniadau terfynol; a gwneud y Gronfa'n fwy agored. **Argymhelliad 14: Dylai'r Gweinidog ystyried ymgynghori â'i gydweithwyr Cabinet ar y camau y mae'n bwriadu eu gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwn (ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill), cyn eu cynnwys (o bosibl gyda materion eraill)**

mewn ymarferiad o ymgynghori cyhoeddus. Gallai ymarferiad o'r fath gynnwys moddau heblaw dim ond cyhoeddi papur ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- 6.45 Yn y tymor hirach, dylai UCAS adolygu cyfanswm gwerth yr hyn sy'n cael ei gyflawni gyda'r Gronfa bob blwyddyn, cyn cwblhau'n derfynol ei flaenoriaethau ar gyfer ei defnydd yn y flwyddyn sy'n dod. Yn wyneb y ffaith fod y cyd-destun yn newid yn barhaus, a chan ragdybio y bydd y Gronfa (neu ffynhonnell ariannol o natur gymharol debyg yn olynidd iddi) yn dal mewn bod, mewn 4 i 5 mlynedd, dylai UCAS gomisiynu adolygiad pellach ohoni. **Argymhelliad 15: Dylai UCAS gomisiynu adolygiad pellach o'r Gronfa (neu gyllideb debyg a fydd yn ei holynu) mewn 4 neu 5 mlynedd.**

7. Rhestr o Argymhellion

Cynhwysir holl argymhellion yr adroddiad yn Adran 6. Er mwyn cyfeirio atynt yn rhwydd rhestrir hwy yma. (Mae'r rhifau mewn cromfachau'n cyfeirio at rifau'r paragraffau yn adran 6 lle mae pob un yn ymddangos)

1. Dylai UCAS bob blwyddyn gynghori Gweinidogion ar sut y dylai blaenoriaethau cyffredinol polisi am y flwyddyn sy'n dod gael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau ar sut i flaenoriaethu'r defnydd o gyllideb y Gronfa nas ymrwymwyd. (6.6)
2. Ni fydd y Gronfa ar gael yn arferol i ariannu unrhyw weithgaredd sy'n amlwg yn rhan o gyfrifoldeb Adrannau eraill o Lywodraeth y Cynulliad. (6.8)
3. Dylai UCAS barhau i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n cefnogi costau craidd a'r hyn sy'n cefnogi prosiectau wrth ddosbarthu ei wariant o'r Gronfa. (6.10)
4. Fel rhan o unrhyw newidiadau i'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb sy'n deillio o ystyriaeth o'r adroddiad hwn, dylid newid enw'r gronfa i un sy'n dangos yn well mai dyma unig gyllideb UCAS, ac y gellir ei defnyddio mewn llawer o wahanol ffyrdd gan wahanol fathau o dderbynwyr (yn y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a phreifat) i gefnogi gwaith UCAS. Gallai enw megis "Cyllideb Strategol Cydraddoldeb" fod yn fwy addas, cyn belled ag y ddeillir o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r tu hwnt fod y gyllideb gymharol fach hon ar gyfer ei defnyddio fel arf bychan dros newid, yn hytrach nag i ariannu'r costau a allai ddeillio o integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb i ddatblygu a gweithredu polisi ar gyfer darpariaeth gwasanaethau prif ffrwd. (6.12)
5. Dros y 2-3 blynedd nesaf, dylai UCAS leihau'r swm o'r Gronfa sy'n mynd ar gefnogi costau craidd cyrff o tua 50%. (6.24)
6. Dylai UCAS godi proffil y Gronfa. Mae angen i'r dulliau a fabwysiedir daro cydbwysedd rhwng cael gwybodaeth fwy hygyrch a chlir yng ngolwg y cyhoedd heb godi disgwyliadau afrealistig neu iddi gael ei gweld yn unig fel pot o arian y gwahoddir pawb i wneud ceisiadau ohono. (6.27)
7. Dylai UCAS gytuno gyda'r Gweinidog (ar ôl ymgynghori gydag adrannau polisi) ddisgrifiad byr o beth fydd y blaenoriaethau ariannu yn y flwyddyn sy'n dod ar gyfer y Gronfa. Dylai hyn wedyn fod ar gael yn gyhoeddus. (6.28)
8. Dylai UCAS drafod gyda'r Adran Gyllid, ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol, aileiriad o'r Cwmpas y mae cyllideb y Gronfa o'i mewn, sy'n cyfeirio'n benodol at gydraddoldeb. (6.30)
9. Dylai UCAS gael yr hyblygrwydd i gefnogi cyrff gwirfoddol y mae'n eu hariannu ar sail aml-flwyddyn (hyd at 3 blynedd gydag amodau lleihau/diweddu cyllid yn cael eu gweithredu fel arfer mewn achosion o dan-berfformio, a dim rhagdybiaeth o gyllid y tu hwnt i 3 blynedd) lle credir gan UCAS ei fod yn cynnig gwell gwerth am arian ac effeithiolrwydd etc wrth gyfrannu at ganlyniadau a ddeisyfir na gyda chyllid un flwyddyn. (6.32)
10. Dylai'r Gronfa ddatblygu ffurflen gais safonol ar brofforma, cynnal peilot ohoni a'i chyhoeddi ar y wefan. (6.34)
11. Dylai UCAS geisio gweithredu'r lefel berthnasol o drylwyredd, monitro a gwerthuso gyda'i grantiau. (6.37)

12. Dylai cynigion am newidiadau cyfeiriad sylweddol yn y defnydd o'r Gronfa sy'n debygol o arwain at golled sylweddol mewn cyllid i rai cyrff (yn enwedig mewn perthynas â chyllid craidd) fod yn destun gwybodaeth ymlaen llaw o tua 12 mis, os yn bosibl. (6.39)

13. Wrth gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch y Gronfa, dylai UCAS gadw'n arbennig mewn cof yr angen i gyfnewid gwybodaeth gyda chyllidwyr eraill. (6.41)

14. Dylai'r Gweinidog ystyried ymgynghori â'i gydweithwyr Cabinet ar y camau y mae'n bwriadu eu gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwn (ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill), cyn eu cynnwys (o bosibl gyda materion eraill) mewn ymarferiad o ymgynghori cyhoeddus. (6.44)

15. Dylai UCAS gomisiynu adolygiad pellach o'r Gronfa (neu gyllideb debyg a fydd yn ei holynu) mewn 4 neu 5 mlynedd. (6.45)

Cylch Gorchwyl yr Adolygiad o Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. Pwnc

1.1 Adolygu'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb yng ngoleuni cyd-destun newidiol cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r profiad o'i gweithredu a'i chanlyniadau ers ei chychwyn yn 2000.

2. Cefndir i'r Gronfa

2.1 Yn 2000, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £100,000 i gefnogi gweithredu Adroddiad MacPherson. Y bwriad oedd darparu blwyddyn o gyllid i ariannu prosiectau penodol a fyddai naill ai'n hyrwyddo cyfle cyfartal fel prosiectau newydd neu'n datblygu ymhellach fentrau a oedd yn bod eisoes.

2.2 Fe wnaeth y cyllid cychwynnol ddarparu ar gyfer datblygu agweddau o gydraddoldeb yn y cwricwlwm, camau i weithredu argymhellion Adroddiad MacPherson ar rwystro hiliaeth ac ar addysg, a hyrwyddo buddiannau menywod, yn enwedig menywod o leiafrifoedd ethnig. Fe wnaeth trosglwyddiad gwaith polisi anabledd i Uned Polisi Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd ar y pryd) hefyd ddod â chyllideb o £55,000 gydag ef nad oedd wedi ei ymrwymo'n llawn.

2.3 Nod yr hyn a oedd am fod y Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb oedd:-

“Datblygu gallu mudiadau ac unigolion o grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli neu sydd wedi dioddef gwahaniaethu i gyfathrebu mewn ffordd gyfundrefnol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch datblygu a gweithredu polisïau, ar draws sbectrwm swyddogaethau'r Cynulliad”.

2.4 Fel rhan o Gylch Cynllunio Cyllideb 2000, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y byddai £250,000 ar gael yn 2001 – 2002 ar gyfer mentrau i hyrwyddo cydraddoldeb. Byddai'r ymrwymiad hwn yn parhau am gyfnod tair blynedd tan 2004 ac yn cael ei weinyddu gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb (fel yr oedd ar y pryd).

2.5 Ers 2001, penderfynwyd parhau i ddatblygu'r mentrau rhwydweithio cydraddoldeb o'r flwyddyn gyntaf o ariannu yn ffurf cefnogaeth i Anabledd Cymru, AWEMA, WWNC a'r Fforwm Lesbaid, Hoyw a Deurywiol.

2.6 Mae'r grant bellach yn cyfrif am £0.87m yn 2006-07. Mae'r Gweinidog dros Gydraddoldeb yn cadw cyfrifoldeb am gymeradwyo'r holl wariant o'r Gronfa.

2.7 Sefydlwyd y Gronfa'n wreiddiol o fewn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ac yno y mae wedi aros, er mai'r Gweinidog sy'n gyfrifol yn awr yw'r Gweinidog dros Gydraddoldeb ac mae'r uned weinyddu bellach wedi ei lleoli o fewn y Grŵp Strategaeth, Cydraddoldeb a Chyfathrebu.

3. Cyd-destun Presennol

3.1 Mae Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru'n gosod dyletswydd unigryw i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb waeth beth fo'u hil, anabledd, rhyw, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran. Cefnogi'r ddyletswydd hon fu nod y Gronfa.

3.2 Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar brif ffrydio cydraddoldeb [2004]. Mae hyn yn cadarnhau y dylai dull gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth fod trwy brif ffrydio, sef integreiddio egwyddorion, strategaethau a gweithredoedd cyfle cyfartal i waith bob dydd llywodraeth.

3.3 Diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o brif ffrydio cydraddoldeb yw "peidio â chyfyngu ymdrechion i hyrwyddo cydraddoldeb i weithredu mesurau penodol, ond ysgogi'r **holl** bolisiâu a mesurau cyffredinol yn benodol i ddibenion cyflawni cydraddoldeb". I wneud hyn mae arnom angen sicrhau bod cefnogaeth, yn ffurf cyfarpar, hyfforddiant a chynghor, yn gadarn yn ei le ar gyfer gwneuthurwyr polisi, ac mae gwaith datblygu sylweddol ar y gweill o fewn Llywodraeth y Cynulliad a chyda partneriaid i sicrhau hyn.

3.4 Mae Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb wedi cael ei chymeradwyo gan y Cabinet. Mae hyn yn amlygu'r angen i ystyried holl ddimensiynau cydraddoldeb boed gorfodaeth ddeddfwriaethol neu beidio. Y nod yw symud tuag at weithio effeithiol ar draws meysydd, gan gydnabod haenau lluosog o anghydraddoldeb, yn hytrach na chwilio am feysydd unigol. Mae gwaith wrthi'n cael ei ddatblygu i ddyfeisio systemau a strwythurau i gefnogi'r agenda prif ffrydio. Adolygiad Beecham a Chreu'r Cysylltiadau yw'r cefndir y dylid sylfaenu'r gwaith hwn yn ei erbyn.

3.5 Mae'n briodol, yn erbyn y cefndir hwn, i adolygiad gael ei wneud o effeithiolrwydd cefnogaeth bresennol Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb, adolygiad a fyddai hefyd yn ystyried dewisiadau ar gyfer y ffordd gyffredinol orau ymlaen yn y maes hwn, yn erbyn cefndir strategaethau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad. Un canlyniad allweddol fydd sefydlu meini prawf eglurach sy'n gwahaniaethu'r Gronfa oddi wrth gynlluniau grant eraill mewn meysydd cysylltiedig. Ar gyfer y dyfodol, mae arnom eisiau sicrhau bod yr wybodaeth yn eglur i ddarpar ymgeiswyr posibl am grant o'r Gronfa, a bod y broses o ymgeisio ac asesu'n un dryloyw, gyda chynghor diamwys ynghylch amcanion y cynllun a'r canlyniadau a ddeisyfir.

4. Methodoleg

- a) Cysylltu a cheisio cyfarfod ag amrywiaeth o randdeiliaid, yn rhai allanol a rhai mewnol.
- b) Cael gwybodaeth ffurfiol a barnau'n ymwneud â gweithgareddau tebyg yn Lloegr a'r Alban.
- c) Cael a darllen dogfennau cefndirol perthnasol, gan gynnwys strategaethau cyhoeddedig Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n berthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn enwedig rhai sy'n ymwneud â chynlluniau grant perthnasol.
- d) Ystyried cynnwys y trafodaethau a gynhaliwyd a'r dogfennau a gafwyd.
- e) Ystyried dewisiadau ar gyfer dyfodol y Gronfa, gan gynnwys y status quo, o fewn cyd-destun prif strategaethau'r Cynulliad.
- f) Drafftio adroddiad o'r adolygiad gydag argymhellion ar ffyrdd ymlaen o ran dull y Cynulliad o ariannu'r Gronfa.

5. Y Cynnyrch

5.1 Y prif gynnyrch fydd adroddiad gydag argymhellion i UCAS a fydd wedyn yn destun cyngor ffurfiol i Weinidogion gan UCAS.

Rhestr o'r rhai y cynhaliwyd trafodaethau â hwy (dangosir y sefydliadau fel yr oeddent ar yr adeg y cynhaliwyd y trafod)

| | |
|--|---|
| Chris Myant | Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) |
| Steve Bennett | CRE |
| Neil Wooding | Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR) |
| Jo Davies | Cyfarwyddwr, Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG |
| Pam Luckcock | Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG |
| Charlotte Williams | Prifysgol Keele |
| Mary Slater | Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (WWNC) |
| Hilary Hendy | MEWN |
| Rhian Davies | Anabledd Cymru |
| Miranda Evans | Anabledd Cymru |
| Marcella Maxwell | Chwarae Teg |
| Paula Walters | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Aled Edwards | Fforwm Cymunedau Ffydd |
| Kate Bennett | Y Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Alison Parken | Stonewall |
| Digwyddiad 4 Gwlad (Mehefin) | Llais y Menywod |
| Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru (Gorffennaf) | Amrywiol staff cydraddoldeb awdurdodau cyhoeddus a GIG Gogledd Cymru |
| Will Bee | Y Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Naz Malik | AWEMA |
| Maria Cheshire | Age Concern |
| Rhian Davies | Comisiynydd Plant Cynorthwyol Cymru |
| Maria Mesa | Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du |
| Huw O Jones | Bwrdd yr Iaith Cymraeg |
| Diane Henderson | Rheolwraig Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru |
| Celia Gibson | Swyddog Cydraddoldeb, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marie Le Bacq | Pennaeth Gwasanaeth, Amddiffyn Plant , Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Yvonne Strachan | Gweithrediaeth yr Alban Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon |
| Ron Davies | Cyngor Cydraddoldeb Hil y Cymoedd |
| Mary Holmes | Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru |
| Sian Lloyd Jones | Prif Weithredwr, Cyllid Cymru |
| Leighton Phillips | Is-adran Creu'r Cysylltiadau, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Angela Evans | Prif Swyddog Ymchwil Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Denise Puckett | Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| John Carter | Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

| | |
|-----------------------|--|
| Colette Eley | Swyddfa Gydydffurfio'r Cynulliad, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Elaine Chamberlain | Adran Polisi Strategol, Deddfwriaeth a Chydraddoldeb, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Andrea Nicholas-Jones | Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol (ACAS) Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Huw Owen Davies | Adran Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Bethan Bateman | DEIN |
| Deborah Cook | Adran Datblygu Busnes, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Paul Webb | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (CCA), Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Kerry Charles | CCA |
| Peter Owen | CCA |
| Amanda Williams | CCA |
| Chris Gittins | CCA |
| Lowri Roberts | CAFCASS |
| Lawrence Stewart | CAFCASS |